

ECO'R WYDDFA

RHIF 362 NADOLIG /IONAWR 2008/9 PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn:

- Cynnyrch yr eisteddfodau
- Cyfarchion Nadolig y pentrefi

LLONGYFARCHIADAU

Wendy Thomas o Lanrug yw enillydd cystadleuaeth coginio Casa Dudley eleni. Ddeufis yn ôl roedd yr Eco yn dymuno'n dda iddi ar gychwyn y rownd a benderfynai a oedd am gael mynd i Sbaen. Llwyddodd, ac aeth ymlaen i gyrraedd y brig yn Ronda, Sbaen.



NADOLIG

Glywi di'r dathlu ar Noswyl
Nadolig
Yn nhafarndai'r Llan?
Glywi di'r bomiau yn ffrwydro,
A'r gynnu yn tanio
Yn Affganistan?

Glywi di'r clychau yn galw'r
ffyddloniaid
I gynnal y gân?
Wedi di'r plant yn eu dagrau,
A weli di'r beddau
Yn Affganistan?

Wedi di'r goleuadau yn fflachio
A'r tanllwyth tân?
Wedi di ddifrod y tanciau
A ffyrnigrwydd y fflamau
Yn Affganistan?

Glywi di sŵn hen garolau'r
canrifoedd
O addoldai'r Llan?
A weli di seren heno
Fel perl yn disgleirio
Uwch Affganistan?

SELWYN GRIFFITH

ANRHYDEDDU



Os edrychwch chi'n ddigon agos mae modd ichi olrhain hanes a datblygiad tref neu bentref drwy edrych ar enwau'r anheddau a'r strydoedd. Os ewch chi i Lanberis, fe gewch chi Stryd Goodman - ar ôl yr esgob enwog a ddaeth i

Lanberis yn yr 1644; Rhes Victoria - ar ôl ymweliad honedig y Frenhines honno i'r pentref yn 1832, neu hyd yn oed Ysgol Dolbadarn - ar ôl y castell Cymreig canoloesol a'r sant hynaws.

Ewch wedyn i efeilldref Llanberis yng ngogledd yr Eidal - Morbegno: Via Garibaldi ar ol yr arwr milwrol hwnnw neu Via Venezia i nodi'r ffordd hanesyddol o'r dref i Fenis.

Ond beth am Via Llanberis?! I'r mwyafrif o ymwelwyr i dref

Morbegno, mae'n debyg na fyddai'r cysylltiad yn un amlwg ond i'r rhai sydd wedi bod yn teithio rhwng y ddwy dref ers bron i 30 mlynedd mae'n dystiolaeth bendant o'r cyfeillgarwch a'r cysylltiad sydd wedi ei ddatblygu dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd y seremoni yn ystod ymweliad blynyddol tim Ras Yr Wyddfa a chlwb rhedeg Eryri i Morbegno ym mis Hydref eleni. Codwyd nifer o dai a fflatiau fforddiadwy o dan gynllun Ewropeaidd ar gyfer teuluoedd ifainc y dref a phleser oedd canfod fod cyngor y Dref wedi anrhydeddu Llanberis yn y fath fodd, yn ychwanegol at y pedwar arwyddbost sydd eisoes wedi eu codi ar ffyrdd sydd yn arwain i'r dref o wahanol gyfeiriadau.

Gwnaed y cysylltiad cyntaf gyda Morbegno yn ystod pumed Ras yr Wyddfa yn 1980, ac ychydig a wyddem bryd hynny y byddai buddugoliaeth Privato Pezzoli yn sail i berthynas mor glos ac agos rhwng cymunedau Llanberis a Morbegno yn y dyfodol. Erbyn heddiw gallwn

ddweud fod lluo o athletwyr o'r ddwy wlad wedi cystadlu yn Ras Yr Wyddfa a'r Trofeo Vanoni; sawl cyfeillgarwch wedi ei chreu rhwng trigolion y ddwy ardal a chynrychiolwyr o ysgolion a chynghorau lleol y ddwy wlad wedi ymweld â'i gilydd yn gyson fel rhan o'r cynllun gefeillio.

Mae'r ddwy ras a chlybiau rhedeg C.S.I Morbegno a Chlwb Rhedeg Eryri, hefyd wedi gefeillio â'i gilydd. Yn wir, mae'r cyfeillgarwch a'r cysylltiad yn un unigryw sy'n ymestyn y tu hwnt i fyd cyffrous rhedeg mynydd.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn croesawu'r Eidalwyr i Lanberis am y degfed tro ar hugain yn olynol. Fe fydd y digwyddiad yma yn hynod o bwysig i un o sefydlwyr y gefeillio, sef Pierto Botta, a fydd yn cystadlu yn y ras am 30ain blynedd yn olynol. Tipyn o gamp!

Os hoffech chi fod yn rhan o'r cynllun cyffrous hwn - dewch i'r cyfarfod gefeillio nesaf yn Ngwesty'r Fictoria, Llanberis ar nos Fercher, Ionawr 14ain 2009 am saith o'r gloch.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 361
RHAGFYR 2008**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarl, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS SUL Ionawr 20fed

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU 29ain Ionawr

Dyddiad Gosod

SUL 25 Ionawr, 5 y pnawn

Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Chwefror		29 Ionawr	Waunfawr	Nan	

Llythyrau

Cais am wybodaeth am ymchwil coeden deulu

Ganwyd fy nhad, William Morris Jones, yn Bodgwynedd, Cwm y Glo yn 1899 a bu fyw yno hyd ei briodas yn 1933.

Ganwyd ei dad ef, Griffith Morris Jones, yn Llanllyfni yn 1853, ond roedd yn amddifad yn 8 oed. Magwyd ef gan ei chwaer, Elizabeth Hughes (ganed Jones) oedd yn briod i David Hughes o gwmpas 1865 ac yn byw wedyn yn Craigfryn Terrace, Cwm y Glo.

Erbyn 1881, symudasant gyda'u 4 plentyn: Griffith, William, Jane a Mary a'r brawd, Griffith Morris Jones, i Glasfryn, Cwm y Glo, drws nesaf i Bodgwynedd. Priododd Griffith Morris Jones yn 1892 gyda Mary Jane Foulkes o Ddeiniolen, a symud i fyw o Glasfryn yn ôl i Bodgwynedd - lle ganwyd fy nhad - William Morris Jones. Unig blentyn oedd fy nhad a bu ei rieni farw yn Bodgwynedd, ei fam yn 1926 a'i dad yn 1931.

Oes gan unrhyw un wybodaeth am y teulu yma yn yr ardal, os gwelwch yn dda? Claddwyd fy nhad a'nain yn Eglwys Llanrug ond ni allaf gael cadarnhad yn union ym mhle.

Gyda diolch

TUDOR A JONES

Unrhyw wybodaeth, os gwelwch yn dda, i Eryl Roberts, 675384. Diolch.

Gan na fydd Rol Williams Waunfawr yn anfon cardiau y Nadolig hwn, dymuna wyliau llawen a Blwyddyn Newydd lewyrchus i'w deulu a'i gyfeillion.

Os am anrheg Nadolig i roi mwynhad yn ystod nosweithiau hir mis Ionawr (a Rhagfyr) mynnwch gopi o hunangofiant Rol Williams, 'Nid Roc ond Rol...'. Mae rhai copiau yn siopau'r llyfrwerthwyr lleol o hyd. Cewch bleser, difyrwch, blas atgofion ac agoriad llygad.

SNAP Cymru
Unit 12a, Llys Onnen
Ffordd Y Llyn, Parc Menai
Bangor, LL57 4DF

Annwyl Darllenwyr,
Mae SNAP Cymru'n elusen Cymru gyfan sy'n gweithio gyda phobl ifanc, teuluoedd a phobl proffesiynol ar faterion sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ac anabledau.

Mae'n tîm o staff a gwirfoddolwyr hyfforddedig ym Mangor yn cynnig gwasanaeth i siroedd gogledd Cymru; i leihau'r byrdwn a'r broses i rieni drwy gynnig gwybodaeth gyfrinachol, gywir, cyngor a chefnogaeth ar anghenion addysg arbennig.

Mae SNAP Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr i weithio gyda rhieni i gynnig cymorth iddynt yn ystod y cyfnodau anodd yma. Mae ein gwirfoddolwyr yn helpu teuluoedd gyda llythyrau a gwybodaeth ysgrifenedig, rhoi cefnogaeth mewn cyfarfodydd ac i geisio annog cydweithio gyda phobl proffesiynol.

Bydd pob gwirfoddolwr yn cael hyfforddiant llawn yn ogystal â chefnogaeth ac arweiniad parhaol. Bydd costau yn cael eu ad-dalu.

Ydych chi'n rhiant neu'n adnabod teulu sydd wedi cael trafferth cael cefnogaeth i'w plentyn, ac yn cofio'r straen?

Mae teuluoedd yn yr ardal eisiau eich cymorth chi. Os oes gennych amser rhydd ac eisiau helpu, ffoniwch y swyddfa ar 01248 674 999 i gael sgwrs gydag un o'r tîm.


Diolch,

ANGHARAD JONES

Swyddog Datblygu Gogledd

Cymru.

SNAP Cymru.



RHODDION

£20: Megan Jones a'r teulu, 56 Glanffynnon, Llanrug

£10: Ernest Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis; Alwena Thomas, 8 Rock Terrace, Llanberis; Goronwy a Heulwen Lewis, Stryd Ceunant, Llanberis; Trefor a Heulwen Edwards, Llanberis; Mrs Nel Williams, 2 Bryn Tirion, Penisarwaun; Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Olau, Deiniolen.

£5: Beti Owen Tan y Cae, Bethel; Llinos Williams, Hafod, Bethel; Emyr a Jean Jones, Wenallt, Bethel; Stanley a Phyllis Jones, 60 Dôl Elidir, Llanberis; Mrs Blodwen Pritchard, Llys y Gwynt, Penisarwaun; Rhys Roberts, Bryn Afon, Penygroes; Rhian Jones, Dulas, 4 High Street, Deiniolen.

CYFARCHION I SHEILA

Dyma lythyr bach i gyfarch Sheila Lyn Williams o Ddeiniolen, gan ei theulu sy'n ofnadwy o falch ohoni. Mae Sheila wedi priodi ac mae ganddi ddau o blant bach oedran ysgol. Mae yn gweithio llawn amser ond ym mis Medi 2008 cychwynnodd ar gwrs coleg, sydd hefyd yn llawn amser. Mae hi'n balansio pethau drwy weithio shiftiau nos a mynd i'r coleg yn ystod y dydd. Mae hi wedi gweithio'n galed iawn dros y misoedd diwethaf rhwng gwaith llawn amser, gwaith coleg ac edrych ar ôl teulu ifanc. Rydym eisiau dweud, cadw ati, Sheila, a caria ymlaen efo'r gwaith da yn y flwyddyn 2009. Mi fydd yn werth o!

Cyfarchion mawr i ti oddi wrth Mam, Dad, Phil, Fiona, Hannah, Ella, Huw, Lisa, Shannon, Alaw, Cari, Dewi, Delyth, Ryan, Robin, Rhodri, Rheinallt, Cole, Daniel, Eurwen a Deiniol.

Diolch yn fawr, FIONA OWEN

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

33 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
DIESEL	PETROL	CHWISTRELLIAD	ARBENIGWYR

**•Cymhwyster•
BOSCH**
i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant*
Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stad Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

SKODA	BMW	PEUGEOT	FIAT
BRÉCS	CLUTCHES	TYRBO	ABS
AIR CON GWASANAETH BATRIS			
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

MEWNFORIO YR ALMAEN
UNION OLWYNION CAM BELTS TRYDANOL
SWEDEN

Cyfarfod Comisiynu Cyllun 'Efe'

Nos Lun, Rhagfyr 1, cafwyd cyfarfod arbennig iawn i Gomisiynu a Chroesawu Andrew Settatee yn Weithiwr Ieuenctid Cynllun Efe. Cynhaliwyd yr oedfa yng Nghapel y Rhos, Llanrug, ac roedd yn braf iawn gweld cymaint wedi dod yno, yn cynnwys aelodau eglwys i'r cylch a chyfeillion a chefnogwyr y Cynllun o ardal ehangach. Dyma'r tro cyntaf i gyfarfod o'r fath gael ei gynnal yn y fro gan mai dyma'r tro cyntaf i ni gael Gweithiwr Cristnogol sydd wedi ei neilltuo'n benodol i weithio gyda phobl ifanc. Roedd yno nifer dda o bobl ifanc, o'r ardal hon ac o fannau eraill. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth yno i dystio i'r achlysur pwysig hwn.

Croesawyd pawb i'r oedfa gan y Parchg Marcus Robinson. Rhoddodd y Parchg Dafydd Hughes, a gafodd y syniad gwreiddiol o gael gweithiwr ac a fu'n llywydd pwyllgor Efe o'r cychwyn, adroddiad am hanes Efe, o'r cychwyniadau dair blynedd a hanner yn ôl hyd at benodi Andrew. Soniodd am y gweddio taer a fu dros y gwaith o'r dechrau, ac am y cydweithio hapus a fu ymhlith aelodau'r pwyllgor. Cafwyd gair o gyflwyniad i Andrew gan Dr Graham Thomas. (Diolch o'r newydd i Graham a Casi Thomas am roi croeso i Andrew ar eu haelwyd yng Nghwm-y-glo pan ddaeth i'r ardal gyntaf ddechrau mis Hydref). Yna, soniodd Andrew ei hun am ei gefndir a'i fagwrfa yn Hwlfordd, a'i brofiad Cristnogol a'i awydd i gyflwyno'r Ffydd i bobl ifanc. Cyfeiriodd at y ffaith mai yn Awstralia yr oedd pan glywodd am y swydd gyda Chynllun Efe, ac o'r fan honno yr anfonodd ei gais. Roedd yn edrych ymlaen yn fawr at y gwaith.

Darllenwyd o'r Beibl wedyn gan Mr Clive James a Mr Colin Jones. Roedd y comisiynu ei hun yng ngofal y Parchg Robert Townsend. Cafwyd anerchiad gan Mr Arfon Jones, Caerdydd, sy'n gweithio gyda'r elusen Gristnogol, GIG (Gobaith i Gymru) a beibl.net. Dywedodd ei fod yn adnabod Andrew ers pan oedd Arfon yn fachgen ysgol, a chofiai gael ei annog gan fam Andrew i siarad Cymraeg ag ef a'i frawd, John, gan nad oedd yna Gymraeg ar yr aelwyd. Ychydig a feddyliai Arfon bryd hynny, meddai, y byddai'r ddau frawd ymhen blyneddod yn gwneud gwaith Cristnogol yn y Gymraeg yng Ngogledd Cymru. (Mae John Settatee yn gweithio i elusen Gristnogol, Trobwynt, yn Llŷn

ac Eifionydd.) Soniodd Arfon hefyd am y cyfnod y bu ef ei hun yn byw yn y Waunfawr flynyddoedd yn ôl ac yn gwneud gwaith cenhadol yn yr ardal. Yn ei neges soniodd am yr angen i bob Cristion fyw'r bywyd Cristnogol yn ffyddlon yng nghanol amgylchiadau anodd, a chyfeiriodd at y darluniau a geir o'r Cristion yn ail lythyr Paul at Timotheus, lle sonnir am y bywyd Cristnogol yn nhermau milwr yn canolbwyntio'n llwyr ar y frwydr; yr athletwr yn byw'n ddisgybledig; y ffermwr yn gweithio'n amyneddgar ac yn disgwyl gweld ffrwyth i'w lafur; a'r gweithiwr ffordd yn sicrhau'r ffordd syth a chywir. Offrymwyd gweddi gan y Parchg John Pritchard. Canodd Susan Williams ddwy gân yn ogystal â chyfeilio i rai o'r emynau. Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd gweddïau eraill gan Graham Thomas, Llywelyn Williams, Siôn Elwyn Hughes, Llifton Jones a Dafydd Pritchard. Iwan Williams oedd yr organydd.

Roedd yn braf cael croesawu rhieni Andrew, ynghyd â'i frawd a'i chwaer yng nghyfraith i'r oedfa. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer ei rieni; a diolchwn i John Roberts, Llanrug, am y gymwynas werthfawr hon.

Wedi'r gwasanaeth cafwyd cyfle yn festri'r capel i sgwrsio ac i fwynhau'r lluniaeth a baratowyd ar ein cyfer. Diolch yn fawr iawn i Mair Hughes a Dilys Mai Roberts am wneud y trefniadau hynny, ac i bawb a baratodd y bwyd a phawb a fu'n helpu i'w weini.

Ar ddiwedd blwyddyn, diolchwn i Dduw am yr hyn a ddigwyddodd yn hanes y Cynllun dros y flwyddyn ddiwethaf yma. Ac edrychwn ymlaen at weld y gwaith yn datblygu dros y misoedd nesaf.

JOHN PRITCHARD

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674 460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Atgofion Hen Sgotwr

Fel yr addewais yn y rhifyn diwethaf, fe gawn atgofion am y gêr yr oeddem yn ei ddefnyddio pan oeddwn i'n dechrau pysgota. A'r mis yma rwyf am gychwyn gyda'r plu y byddwn yn eu defnyddio, a'r newid sydd wedi digwydd erbyn hyn.

Yn gyntaf beth am y newid mewn plu Eog? Yn y blyneddod cynnar, sef yn niwedd y pumdegau, plu un bachyn a ddefnyddiai pawb. Plu lliwgar dros ben nad oeddynt yn debyg i unrhyw greadur byw, yn wir gallech ddweud eu bod yn gelfyddyd ac yn werth eu gweld. Hefyd, roedd angen bod yn grefftwr i'w cawio. Nid oes angen eu henwi, roeddent yn adnabyddus i bob pysgotwr eog.

Ond, erbyn heddiw maent i gyd wedi newid. Yn gyntaf mae llawer llai o ddefnydd yn eu gwneuthuriad, yn enwedig yn yr adain. Erbyn heddiw maent yn cael eu gwneud gyda blew o wahanol liwiau. Yn aml iawn gyda dau neu dri o fachau ac hefyd rhai gyda'r corff ar wahân i'r bachau. Ac yn dipyn haws i'w cawio.

Rhaid hefyd sôn am y plu Brithyll a ddefnyddiwn ar lan Llyn Padarn a Llyn Peris. Plu syml fel Petrisen Corff Gwin neu Corff Blewyn Ysgyfarnog. Hefyd cryn ddefnydd o blu Hwyaden a Drudwen. Dyma'r plu y dysgais i eu defnyddio gan yr hen bysgotwyr a oedd ar y llynnoedd, ac roeddent yn bachu tipyn mwy nac sydd yn

cael eu bachu heddiw. Plu digon syml oedd rhain a oedd yn cael eu cawio gyda defnyddiau y medrai'r chwarelwyr gael gafael arnynt yn ddigon rhwydd.

Ond eto, erbyn heddiw fe gawn blu sydd wedi eu cawio gyda defnyddiau na wyddai'r hen bysgotwyr amdanynt. Mae'r plu hefyd yn llawer mwy o faint mwy erbyn heddiw, a hefyd yn fwy lliwgar.

Man arall lle mae'r newid mawr wedi digwydd yw gyda defnydd troellio. Yng nghanol y ganrif ddiwethaf daeth mino dûr i wthio yr un byw o'r neilltu wedi blyneddod maith o'i ddefnyddio. Erbyn heddiw mae gennym amryw droellbethau nad oedd mewn bod, hyd yn oed bymtheng mlynedd yn ôl. A rhain o bob lliw a siâp.

Yr unig beth a ddywedaf i yw fy mod wedi arfer trin yr hen greiriau troellio ac yn gwybod sut y maent yn gweithio, a gan mod i wedi hen arfer eu defnyddio, felly mae gennyf fwy o ffydd ynddynt.

Wel, erbyn hyn mae fy atgofion yn dod i ben, a'r cof am yr hen gymeriadau yn dod ac atgofion melys yn ôl i mi. Heddych i'w llwch. Ac am y rhai sy'n dal i fod gyda ni ac y byddaf yn pysgota gyda hwy, wel gobeithio y gwelaf chi i gyd y tymor nesaf.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda a heddychlon i chi i gyd.

R. ELWYN GRIFFITH

PWYSIG PWYSIG PWYSIG

I bawb sydd am anfon newyddion, deunydd, storïau, erthyglau ac yn y blaen ar gyfer rhifyn y Nadolig.

Bydd angen anfon newyddion i law gohebydd pentref erbyn nos Sul Ionawr 18fed. Os am ei anfon drwy ebost i Alwena rhaid iddo gyrraedd erbyn bore Mawrth yr 20fed. Cyfeiriad ebost Alwena ydy -

alwenaowen@gmail.com

Os yn anfon drwy ebost, wnewch chi anfon unrhyw luniau fel ffeiliau llun (JPEG gan amlaf) ac nid fel lluniau mewn dogfen brosesydd geiriau fel Word. Felly anfon y lluniau'n unigol ac yna anfon y testun ar wahân.

Hefyd, cewch anfon deunydd erbyn dydd Sul Ionawr 18fed i Gavin Saynor, Penarth, Stryd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BA

RHAID i'r holl ddeunydd fod i law Alwena erbyn dydd Mawrth. Ni fydd unrhyw ddeunydd a dderbynir wedi'r dyddiad hwn yn cael ei gynnwys!

PEIDIWCH ac anfon unrhyw ddeunydd i Wasg Gwynedd nac i Wasg Dwyfor.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PLAID CYMRU. Mwynhawyd noson arbennig o gaws, gwin a chân gan aelodau a chefnogwyr Plaid Cymru nos Fercher, 19 Tachwedd, yn y Sefydliad Coffa yng nghwmni Llywydd y Blaid, Dafydd Iwan. Wrth ei gyflwyno, llongyfarchodd Phyllis Ellis ef ar gael ei ethol yn Llywydd Plaid Cymru am dymor arall. Cafwyd anerchiad difyr ganddo yn trafod gwaith y Blaid yn y Cynulliad, a'r newydd da bod y Gymraeg ar fin cael ei siarad am y tro cyntaf yng Nghyngor Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd ym Mrwsel gan un o weinidogion y Cynulliad Cenedlaethol, cam bychan ond hynod o bwysig i'r iaith. Roedd yn cydnabod gwaith diflino yr ASE Jill Evans i fynnu lle i'r iaith Gymraeg ymysg ieithoedd Ewrop. Penderfynodd y gangen anfon llythyr o werthfawrogiad at Jill Evans i ddiolch iddi am ei gwaith.

Meirwen Lloyd, Nan Humphreys a Mair Parry oedd wedi trefnu ail ran y noson, a chafwyd cyfle i sgwrsio a chymdeithasu uwchben y gwin, y caws a'r danteithion eraill. Ac yna, pinacl y noson, amryw o ganeuon hen a newydd gan Dafydd Iwan a'i gitâr, yn cynnwys un gân newydd arbennig dan y teitl 'Dos i ganu!' Diolchwyd i Dafydd am ei ysbrydoliaeth a'i gyfraniad arbennig i'r Blaid, ac i bawb a fu'n trefnu'r noson.

Enillwyr raffl y noson oedd Olwen Huws, Meryl Green a Mair Parry. Cyhoeddwyd enwau enillwyr y Clwb Cant am y pum mis diwethaf:
Gorffennaf: Hefin Jones a Rolant Wynne; *Awst:* Gwawr Morris a Jean Davies; *Medi:* John Roberts a Falmai Owen; *Hydref:* Gwenda Owen a Gwenda Roberts; *Tachwedd:* Arwyn Roberts a Meryl Green.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuniadau gorau i bawb dros yr ŵyl.



*Gwern Llŷn Brookes
Enillydd Gwobr Bwlchgrwnog i'r
unigolyn gorau yn y cystadlaethau
canu ac adrodd oedran Cynradd yn
Eisteddfod Llanrug a Cwm y Glo.*

PROFEDIGAETH. Yn sydyn iawn ar y 3ydd o Ragfyr, bu farw Dr David John Humphreys, Noddfa, Ffordd Llanberis, gwŷr annwyl Joan, yn enedigol o Cae'r Maen, Caernarfon. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant atoch fel teulu.

BABI NEWYDD.


Llongyfarchiadau mawr i Siôn a Gwenlli, Holdsworth, Penisarwaun, ar enedigaeth Efa Siôn. Dymuniadau gorau iddynt ac i Taid a Nain Eddie a Rhydwen Pugh a theulu Holdsworth, Glanffynnon.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Gwynfor a Mair Humphreys, Rhoslan, Stad Minffordd a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl, Gracie, yn Rhosgadfan.

BRYSIWCH WELLA. Bu i Merfyn Jones, Bro Rhyddallt, gael ei gipio i'r ysbyty yn ddiweddar. Mae yn dechrau gwella ac yn awr wedi ei symud i Ysbyty Eryri i gael mwy o driniaeth. Cofion gorau atoch a dymuniadau da am wellhad buan.

Hefyd, dymuniadau gorau i Sharon Ellis Owen, Bryn Moelyn, sydd wedi derbyn llawdriniaeth calon yn Ysbyty Manceinion. Brysiwch chithau wella.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Rhys Pleming, Cartrefle, Bryn Moelyn, ar dderbyn Gwobr Aur



oeddi wrth y Tywysog Edward ym Mhalas St James, Llundain, yn ddiweddar. Fe gyflawnodd y Wobr Aur fel Rhingyll yn Sgwadron 1310 Air Cadet yng Nghaernarfon. Ardderchog, Rhys.

DYMUNA Megan, 56 Glanffynnon, Llanrug, Howyn, Ian a Nia, ddiolch o galon am y gefnogaeth a phob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt ar ôl marwolaeth Cled. Diolch am yr holl roddion hael at Feddygfa Llanberis a Ward Cybi, Ysbyty Gwynedd.

Hefyd dymuna Megan Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

i'r teulu a'i ffrindiau oll.

Y SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb 100 mis Rhagfyr oedd: £20: Mrs G. Kirkpatrick, 21 Hafan Elan; £7: Mrs M. Davies, Bod Awel; £5: Wendy Owen, 23 Hafan Elan.

Diolch i gefnogwyr y Clwb 1200 a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi.

CAPEL Y RHOS. Braff oedd cael croesawu teulu arall i wasanaeth bedydd fore Sul, Rhagfyr 7fed. Bedyddiwyd Ianto Gruffudd gan y Parch. Marcus Robinson ein gweinidog. Mae Ianto yn fab i Nia a Deiniol sydd wedi ymgartrefu yn Llanelli ac yn wyr i Ann a Now Griffith, Hawddamor.

Rhagfyr 21, am 10 o'r gloch, cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul.

Am 9 o'r gloch bore dydd Nadolig cawn wasanaeth arbennig ac mae croeso i'r plant ddod ag un o anrhegion Siôn Corn gyda nhw.

Oedfaon mis Ionawr

4:	Gwasanaeth Cymun dan ofal y Gweinidog
11:	Y Parch. Harri Parri
18:	Y Gweinidog
25:	Y Parch. Ieuan Lloyd

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn siop

LONDIS

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG

LONDIS

Ffôn: 672937

Y gwerth gorau'n lleol

- Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
- Dewis da o fwyd a diod i ddathlu'r Ŵyl o ben bore tan yn hwyr y nos!

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

- ★ Gwasanaeth 7 diwrnod
- ★ O ddrws i ddrws
- ★ Control Deuol

D

L

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug

Ffôn: C'fon 675112

Cymeradwy gan yr Adran Trafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda oddi
wrth bawb yng



NGHARTREF



Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD

LLANRUG

Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I CHWI OLL



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i ddarllenwyr Yr Eco oddi wrth Bawb
ym Mharc Cartrefi Gwyliau



– lle gwiredwyd breuddwyd

Mae ein llwyddiant wedi parhau eleni eto
gydag ennill

Gwobr Aur Cadwraeth David Bellamy



Yn dilyn y datblygiadau
parhaol oddi mewn i'r
parc, mae'r fenter yn awr
yn cyflogi 26 o bobl
gydol y flwyddyn, gyda'r
nifer o swyddi yn
cynyddu hyd at 60 yn
ystod prysurdeb tymor
yr haf.

Mae'r cwmni yn dal i
gefnogi a noddi nifer o
achosion da yn
yr ardal.



Cyfarchion Nadolig LLANRUG

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

WENDY

a

STAFF

**TAFARN
PENBONT
LLANRUG**

Lle braf a chwmni difyr
dros wyliau'r Nadolig a'r
Flwyddyn Newydd

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Dave, Bobbie a staff y

**GLYNTWROG
LLANRUG**

Bwyd ardderchog
am brisiau rhesymol

Bydd croeso
cynnes yma
dros yr ŵyl



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

**BRYN AFON
ENGINEERING LTD
PEIRIANWYR MECANYDDOL**



Arbenigwyr mewn pob
math o waith metel

**GWAITH BRYN AFON
LLANRUG, Ffôn: 675523**

Nadolig Llawen

a Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth **Elaine a Staff**

SIOP DRIN GWALLT a HARDDWCH

Elaine's

LLANRUG

Ffôn: 672023

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod yr adnewyddu

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth*

**DYLAN, MIKE A HOLL STAFF
SIOP CHIPS TEGFAN**

Y Sgwâr

LLANRUG 678282

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth*

Gwynfryn a Valerie Lloyd



**4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 674781

- Defnyddir peiriant sugno i lanhau
- Simneau glân am bris rhesymol

**CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS**

(Glyn Roberts a'i Fab)

DYNION GLO LLANRUG

Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**PAT AC EDGAR
SWYDDFA'R POST
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 672422



SWYDDFA'R
POST

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i barwb
oddi wrth

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996



- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisau cystadleuol

BRYSIWCH!

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid
ac i barwb ym mro
Eco'r Wyddfa



oddi wrth

WAVELL'S

Bryn ac
Angela Williams

CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn:
Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Cefnogwch ein Hysbysebwr



**Cyfarchion
Nadolig
LLANRUG**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Y DYN CIG

BRYNAFON, LLANRUG

675190 • 673188

Symudol: **07798 718188**


Gwasanaeth lleol ar gyfer
Partion•Priodasau

Pen-blwydd • Bedydd • Dawns • Gwyliau
RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur

Cig o ffermydd lleol, Partion rhwng 40 a 400!

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â: **John Hughes Jones** ar un o'r rhifau uchod



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed
am brisiau cystadleuol.

Coed tân ar werth

**Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG**

ffôn: **(01286) 674183**

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA I BAWB

Pryd i Bawb

*Bwffe blasus o safon
at bob achlysur*

Priodas • Parti

Te Angladdau • Cinio Busnes

*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i Bawb*

CERID MACKINNON

Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



J.M. JONES

a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref

01248 679089 • 01286 830996

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth barwb yn

ARVONIA



- Tocynnau Anrheg Gwyliau ar gael yma
- Gofynnwch am ein 'Brochure' Gwyliau Newydd

Y Sgwâr, Llanrug

Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: **01286-675175** Ffacs: **01286-671126**

E-bost: **info@arvoniaco.uk**

Gwefan: **www.arvoniaco.uk**

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

WEDI DYWEDDIO.

Llongyfarchiadau i Ann Hughes, Erw Wen gynt, ar ei dyweddian â Dr Andy Gash, Ysbyty Gwynedd a Llanddona.

WRTH Y LLYW.

Llongyfarchiadau i Iolo Owen, Cae Philyp a Caio Iwan, Carrog, wedi iddynt lwyddo yn eu arholiad prawf gyrru car.

LLAWDRINIAETH. Edrychwn ymlaen i weld Michelle Roberts tu ôl i'r bar yn Nhafarn Bryn Gwna yn y flwyddyn newydd ar ôl triniaeth lwyddiannus yn Ysbyty Gwynedd.

GWYLIAU HIR. Croeso adref i Deiniol Hughes, Tŷ Mawr ar ôl ei wyliau estynedig yng Ngwlad Thai, gyda ymweliad ychwanegol i wledydd Malaysia a Singapore.

LLUNIAU A LLUNIAETH. Beth fyddai'n well yng nghanol y

gaeaf na noson allan ymhlith cyfeillion? Wel, dyma'ch cyfle - am 7.00 o'r gloch nos Wener, 23 Ionawr, bydd Megan a Tim Lloyd yn siarad a dangos lluniau a dynnwyd ar eu taith ddiweddar i fynyddoedd yr Himalayas. Gofynnir i bobl ddod â chyfraniad o fwyd ar blât er mwyn i bawb fwynhau bwffe bysedd a chwblhau'r noson berffaith allan. Croeso i bawb. CAPEL Y PENTREF. Disgwylir cynnal yr oedfaon canlynol yn ystod mis Ionawr:

4: 10.00: Mr Dafydd Iwan

11: 11.00: Ysgol Sul

18: 10.00 Mr Tudor Ellis

11.00 Ysgol Sul

25: 11.00 Ysgol Sul

Dymunwn Flwyddyn Newydd dda i holl ddarlennwyr Eco'r Wyddfa yng Nghaeathro.

*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth bawb yn*

GAREJ GWALIA



CAEATHRO

Ffôn: 673096



Gwasanaeth

Torri Lawr 24 awr

M.O.T. * Trwsio Ceir



Ar agor 7 a.m. - 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth*



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad neu
ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu e-bost: williamshy@parliament.uk

alunffred.jones@wales.gov.uk

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

• ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL

• GOFAL PERSONOL-BATHIO

• CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU

• EISTEDD YN YSTOD Y DYDD
A GYDA'R NOS

• GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN

• CEFNOGI POBL

• CYSYLLTU A GWASANAETHAU
ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

*Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn rewrto yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • Ffordd y Parc • Parc Menai • Gwynedd LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Nadolig Llawen
a diolch am eich
cefnogaeth

oddi wrth

Alwyn a Sarah

*Blodau
Racca*

Penisarwaun Ffôn: 870605

Rithoedd Celyn,
Coed Nadolig, 'Crem Pots' a
Rithoedd Drws.

Basgedi Planhigion,
Trefniadau blodau Silc.



RHODD O'R GALON YW BLODAU

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

LLONGYFARCHIADAU i Hawys Llwyd Price, 'Rynys, Llanddeiniolen, disgybl 6ed Dosbarth ym Mrynrefail, am raddio gydag anrhydedd yn ei arholiad piano Gardd 8 Associated Board y Royal School of Music

CLWB BRO BETHEL. Dathlu'r Nadolig fu hanes yr aelodau yng nghyfarfod mis Rhagfyr a gyda chwmni difyr bu i 32 o'r aelodau fwynhau cinio blasus iawn wedi ei baratoi gan staff Y Bedol. Y Parchedig Marcus Wyn Robinson offrymodd air o weddi ar y cychwyn, ac ar y diwedd diolchodd y Prifardd Selwyn Griffith i Eunice Roberts a Gwyneth Williams am yr holl drefniadau, i bawb a gyfrannodd tuag at y Raffl, i'r staff am bob cymorth, ac anfonwyd cofion at y rhai oedd yn methu a bod yn bresennol oherwydd gwaeledd. Dymuniadau gorau i bawb dros yr Wyl a bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 6ed. yng nghwmni Selwyn Williams, Rhiwlas.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Dathlu'r Nadolig fu hanes aelodau'r Gymdeithas hefyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr gyda'r aelodau yn cymryd rhan mewn cân a cherdd. Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, Ieuan Williams, ac yna cafwyd amrywiol ddarlenniadau o gerddi gan feirdd cyfoes, eitem gan Dri Gwr Doeth, tair cân gan Barti Merched, a chanu carolau traddodiadol gyda chyflwyniad pwrpasol i bob carol. Diolchwyd yn gynnes iawn i bawb a gymerodd ran ac i'r merched am ofalu am luniaeth ysgafn ar y diwedd gan Myra Griffith. Roedd pawb yn teimlo fod gwir naws y Nadolig wedi ei

gyflwyno yn raenus iawn, a derbyniwyd rhoddion tuag at Ambiwylans Awyr Cymru.

Capel Cysegr. Gwasanaeth Bore Dolig. Cynhelir Gwasanaeth y Cymun Bendigaidd yng Nghapel Y Cysegr ar fore Dydd Nadolig am 10 o'r gloch yng nghwmni y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson, ac aelodau o Eglwysi y cylch. Dewch i ymuno â ni eleni yn yr oedfa i gychwyn y dydd mewn awyrgylch Gristnogol. Bydd unrhyw roddion ariannol a dderbynnir yn cael eu trosglwyddo i gynllun 'Efe'.

Llwyddiant Cerddorol. Llongyfarchiadau i Gethin Griffiths, Dolserau, ar lwyddo mewn arholiad Gradd 6 piano a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar.

Cyfarchion y Tymor. Dymuna Goronwy a Mair Jones, Cilan, Tan y Cae, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Da i'w teulu, cymdogion a ffrindiau gan na fyddant yn gyrru cardiau eleni. Diolch yn fawr iawn am bob caredigrwydd a gawsant yn ystod 2008.

Diolch. Dymuna Beti Owen a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar ôl colli chwaer, Megan yng Nghaernarfon.

Gwerthfawrogwn y galwadau ffôn, y cardiau, yr ymweliadau a'r arian a gasglwyd er cof am Megan, at Ymchwil Cancr Cymru, sef £670.00.

Dymuna Jean, Wenallt ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd yn dilyn y driniaeth a gafodd yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch arbennig hefyd i staff Ward Enlli a'r Feddygfa yn y Felinheli.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN A'R TEULU

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)
10 a.m.-12pm
(Diwrnod Nadolig)



*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn*

R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

Offer i'w logi ar gyfer:

- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd



Hefyd: Lle i wagio sbwriel inert a Hardcore ar werth

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300

neu (07775) 638620



**CYFARCHION
NADOLIG
BETHEL**

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA ODDI WRTH
ANN A BILLY HUGHES
A STAFF**

**SIOP TREFLYN
BETHEL**

Ffôn: (01248) 670106



Diolch am eich
cefnogaeth
drwy'r flwyddyn



CEIR CYMRU

BETHEL

(01248) 670451

www.ceircymru.com

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 18 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2009 i ddarlennwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd. 'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CYFLENWYR PORTHIAN

IDRIS MORRIS

**BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO**

**Y Fachell
Llanddeiniolen**

Ffôn:

01248 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



EISTEDDFOD BENTREF

Cafwyd Eisteddfod hynod o lwyddiannus eto eleni, gyda nifer fawr o blant ac ieuenctid yr ardal yn cymryd rhan. Y beirniaid oedd Karen Owen, Penygroes (Llên a Llefaru), Hywel Parry, Tregarth (Cerdd), Nia Huws, Rhosgadfan (Celf), Llinos Hughes, Amlwch (Dawnsio Disgo). Y cyfeilyddion oedd Glenys Griffiths, Manon Gwynedd, Manon Dauncey Griffiths, Deilwen Hughes, Siôn Elwyn a Helen Morris. Arweinyddion y pnawn oedd Mari Williams a Ffion Owen, ac Ann Lloyd Jones ac Anita Owen gyda'r nos. Marged Rhys oedd yn arwain yn y noson dawnio. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i Mr Dylan Parry a staff yr Ysgol Gynradd ynghyd ac Anti Hayley a staff yr Ysgol Feithrin am eu cefnogaeth amhrisiadwy i'r Eisteddfod. Diolch i'r plant a'r ieuenctid ynghyd â'r holl hyfforddwyr am eisteddfod lwyddiannus eto eleni. Roedd cyfraniad Adran yr Urdd, fel arfer, yn ychwanegu at

naws seremoni'r tlysau - a enillwyd gan Bethan Jones, Bl.5, a Marged Rhys, disgybl yn Ysgol Brynrefail. Cefnogwyd yr Eisteddfod yn ariannol gan lawer o fusnesau lleol, a chyfranwyd tlysau bach gan nifer o garedigion y pentref. Eleni cyflwynwyd dau dlws newydd, sef Tlws Llwyn Eithin a Thlws Parc y Wern. Diolch i bawb hefyd a gyfrannodd tuag at y Raffl ac a fu'n gymorth i gynnal yr Eisteddfod eto eleni, ond yn bennaf, diolch i'r Ysgrifennydd, Rhian Hughes, am ei gwaith diflino ar hyd y flwyddyn, ac i Gwyneth Jones, y Trysorydd, am sicrhau gwobrau ariannol i bawb oedd wedi cyrraedd y brig.

Canlyniadau Eisteddfod Bethel 2008

Dawnsio Disgo

Pâr Bl 3 ac iau: 1: Amara a Gwenllian. **Pâr Bl 4, 5 a 6:** 1: Lowri ac Elan; 2: Lowri ac Erin. **Grwp Bl 3 ac iau:** 1: Grwp Elan; 2: Grwp Gwenllian; 3: Grwp Kyle. **Grwp Bl 4, 5 a 6:** 1: Angylion Bach Kelly; 2: Grwp Rhianwen; 3: Grwp William.



Rhai o blant blwyddyn Derbyn yn barod i gystadlu ar y llwyfan.



Y Buddugol yng nghystadlaeth Tlws Llenor Cynradd a Thlws Llenor Uwchradd, sef Bethan Jones a Marged Rhys.



Côr Uwchradd.

Unigol Bl 4, 5 a 6: 1: Elen Haf **Unigol Uwchradd:** 1: Fflur Hughes; 2: Lois Jones. **Tlysau:** Tlws Teulu Treflys: Elen Haf (Cynradd); Tlws Teulu Cefn Ffrwd: Fflur Hughes (Uwchradd)

Cerdd

Unawd: **Cylch Meithrin:** 1: Tomos; 2: Mari; 3: Lois. **Dosbarth Meithrin:** 1: Erin; 2: Milly; Cyd 3: Cai a Sam. **Bl 0:** 1: Elis; 2: Cadi; 3: Rhys. **Bl 1 a 2:** 1: Gwenllian; 2: Angharad; 3: Sion Arfon. **Bl 3 a 4:** 1: Emma; 2: Dewi; 3: Moli. **Bl 5 a 6:** 1: Elan; 2: Rhidian; 3: Sion Alun. **Bl 7, 8 a 9:** 1: Lowri; 2: Eiry; 3: Caio. **Bl 10-13:** Cyd1: Gwilym ac Enfys; 2: Gruff. **Unawd Piano Bl 1, 2 a 3:** 1: Elan. **Unawd Piano Bl 4, 5 a 6:** 1: Gwion Wyn; 2: Glesni; Cyd 3: Alaw a Rhidian. **Unawd Piano Bl 10-13:** 1: Sion Elwyn; 2: Manon Elwyn; 3: Gethin. **Offerynnol Bl 1-6:** 1: Alaw; 2: Richard; Cyd 3: Gwenllian a Rhidian. **Offerynnol Bl 7, 8 a 9:** 1: Glesni; 2: Mari Tachwedd; 3: Caio. **Offerynnol Bl 1-13:** 1: Manon Elwyn; 2: Sion Elwyn; 3: Gwilym. **Alaw Werin Bl 1-6:** 1: Elan. **Alaw Werin: Bl 7-13:** 1: Lowri; 2: Enfys; 3: Catrin. **Unawd Cerdd Dant: Bl 7-13:** 1: Lowri; 2: Enfys. **Deuawd Bl 7-13:** 1: Lois a Catrin; 2: Lowri a Cai; 3: Lowri a Ilid. **Parti Bl 1, 2 a 3:** 1: Parti Sara; 2: Sblish, Sblash, Sblosh. **Parti Bl 4, 5 a 6:** 1: Criw y Gofod; 2: Y Gofodwyr. **Parti Uwchradd:** 1: Parti Lleisiau Swynol. **Grwp Offerynnol:** 1: Yr Eirth yn y Teis Gwynion heblaw am Gwilym. **Meimio i record:** 1: Yr Hipis. **Cân Gyfoes:** 1: Llund Llwyfan o Dalent a Gwilym. **Tlysau:** Cwpan Boss (lleisiol cynradd): Gwenllian Griffiths; Tlws Goffa W. G. Ellis (piano cynradd): Gwion Wyn; Tarian Ael y Bryn (offerynnol cynradd): Alaw Huws. Cwpan Goffa Mrs Joan Foulkes (lleisiol uwchradd): Lowri; Tlws Coffa John M. Williams (piano uwchradd): Sion Elwyn; Tlws Teulu Pen Parc (offerynnol uwchradd): Manon Elwyn. Cwpan Teulu Llwyn Eithin (parti canu cynradd): Criw y Gofod.

Llefaru

Cylch Meithrin: 1: Tomos; 2: Mari; 3: Lois. **Dosbarth Meithrin:** 1: Cai; 2: Erin; 3: Sam. **Bl 0:** 1: Sion; 2: Elis; Cyd 3: Huw, Jac a Cadi. **Bl 1 a 2:** 1: Gwenllian; Cyd 2: Cai a Bedwyr; Cyd 3: Elin a Owain Emrys. **Bl 3 a 4:** 1: Moli; 2: Elan; Cyd 3: Emma a Rhianwen. **Bl 5 a 6:** 1: Gwion Wyn; 2: Rhodri; Cyd 3: Elliw a Lowri. **Bl 7-9:** 1: Lois. **Bl 10-13:** 1: Enfys; 2: Lowri; 3: Marged. **Parti Bl 1, 2 a 3:** 1: Rabsgaliwns; 2: Parti Saron. **Parti Bl 4, 5 a 6:** 1: Y Golau Traffig; 2: Parti Hari. **Parti Uwchradd:** 1: Darllen ar y pryd; 1: Dyfan. **Sgets:** Y Sgetwyr.

Tlysau: Cwpan Arian (llefaru cynradd): Gwenllian Griffiths. Cwpan Konica (llefaru uwchradd): Enfys. Tlws Sian Robinson (darllen ar y pryd): Dyfan Coles. Cwpan Parc y Wern (parti llefaru cynradd): Y Golau Traffig.

Llên:

Meithrin: 1: Owain; 2: Haf; 3: Gethyn. **Bl 0:** 1: Elen; 2: Shauna; 3: Ceri Rose. **Bl 1:** 1: Ioan; 2: Josie; 3: Heledd. **Bl 2:** 1: Angharad; 2: Huw; 3: Callum. **Bl 3 a 4:** 1: Iolo; 2: Sara; 3: Ben. **Bl 5:** 1: Bethan; 2: Lisa Haf; 3: Elain Haf. **Bl 6:** 1: Adam; 2: Ryan; 3: Emma. **Bl 10-13:** 1: Marged Rhys. **Llinell Goll:** Rita Williams. **Unrhyw ffurf o ryddiaeth Agored:** 1: Gethin Griffiths.

Tlysau: Tlws Cymdeithas Lenyddol (llenor cynradd): Bethan Jones Bl 5.

Tlws Merched y Wawr (llenor uwchradd): Marged Rhys, Bl. 13.

Cwpan Teulu Llain yr Ardd (unrhyw ffurf o ryddiaeth): Gethin Griffiths.

Celf

Arlunio 2D: **Cylch Meithrin:** Cyd1: Hannah a Mari; 2: Tomos; 3: Lois. **Dosbarth Meithrin:** 1: Gethyn; 2: Haf; 3: Erin. **Bl 0:** Cyd1: Jac a Ceri Rose; 2: Lois; 3: Sion. **Bl 1:** 1: Ceriann; 2: Ioan; 3: Tomos. **Bl 2:** 1: Iolo; 2: Huw; 3: Erwan. **Bl 3:** 1: Rhys; 2: Sara; 3: Iolo. **Bl 4:** 1: Elen; 2: Dewi; Cyd 3: Ffion a Rhianwen. **Bl 5:** 1: Gwenno; 2: Elain a Bethan; 3: Lisa. **Bl 6:** Cyd1: Elan ac Erin; 2: Adam; 3: Richard. **Bl 10-13:** 1: Greta; 2: Bronwen; 3: Greta.

Gwaith 3D: **Bl 2 ac iau:** 1: Ywain Emrys. **Bl 3 a 4:** 1: Elin Mari. **Bl 5 a 6:** 1: Gwion Wyn a Hari Gwynne; 2: Gwion John; 3: Gwenno Parry. **Bl 7-13:** Sion Emlyn. **Graffeg Cyfrifadurol Bl 3 a 4:** 1: Elen Haf. **Bl 5 a 6:** 1: Hari Gwynne.

Ffotograffiaeth: **Bl 2 ac iau:** 1: Gethyn; 2: Gwenllian; Cyd 3: Haf a Twm. **Bl 3 a 4:** 1: Dewi; 2: Emma; 3: Elen. **Bl 5 a 6:** 1: Rhidian; 2: Hari; 3: Lowri. **Bl 7-9:** 1: Guto; 2: Sion; 3: Sion. **Bl 10-13:** 1: Gethin; 2: Llio. **Logo:** **Bl 1-13:** 1: Rhidian; 2: Sara; 3: Caio.

Collage: **Bl 0, 1 a 2:** 1: Sion Arfon; 2: Lowri; 3: Iolo Llyr. **Bl 3 a 4:** 1: Elen Haf; 2: Elin Mari; 3: Sara Dylan. **Bl 5 a 6:** 1: Gwion John; 2: Sion Dylan; 3: Gwenno Parry.

Argraffu neu Addurno ar Ffabrig: **Bl 2 ac iau:** 1: Twm Henri; 2: Haf Mwyn. **Bl 5 a 6:** 1: Gwenno Parry. **Ffasiwn Bl 6 ac iau:** 1: Gwenno Parry; Cyd 2: Lowri Angharad a Lowri Angharad. **Bl 7-13:** 1: Glesni Fflur

Tlysau: Tlws Celf Cynradd: Hari Gwynne Ifans; Tlws Celf Uwchradd: Greta Fflur Jams.

CHWILOTA

CADW FUSUTORS



Nid yw'n syndod fod cynifer o bobl o'r fro wedi ceisio ychwanegu rhywfaint o arian at eu cyflogau wythnosol o'r chwarel drwy gadw fusutors neu baratoi lluniaeth ysgafn ar eu cyfer. Onid oedd yr hen fwynwyr copr ar lethrau'r Wyddfa yn gwerthu ychydig o de, bara a chaws i'r rhai a fentra i fyny ar gefn merlod o westy'r Fictoria? Ac y mae caffi Pen Ceunant a chaffi Haffwê (a rhoi iddynt eu henwau llafar) yn parhau yn yr olyniaeth hyd heddiw. A dichon na ddaw Hafod Eryri (a rhoi iddo ei enw swyddogol) neu Gaffi Ben Wyddfa (fel y gelwir ef gan lawer) i gyflawni'r un gwasanaeth erbyn y flwyddyn nesaf.

Ond mae trigolion godre'r Wyddfa wedi bod yn elwa o'r fusutors ers dwy ganrif; yn enwedig ers y cyfnod ble roedd yn bosibl i drigolion perfeddion Lloegr deithio i'r ardal ar y trên. Mae digon o dystiolaeth ar gael am rai o'r ymwelwyr cynnar yng nghofnodion rhai o'r gwestai. Mae Llyfr Ymwelwyr Pen y Gwryd yn enghraifft nodedig. Croniclyd llawer o'r hanesion cynnar hefyd yn llyfr ardderchog Dewi Jones *Tywysyddion Eryri*.

Ond prin yw'r wybodaeth am gartrefi a thai cyffredin oedd yn manteisio ar y tymor gwyliau byr ac yn paratoi diod a lluniaeth i'r rhai a fynnai gerdded i fyny'r Wyddfa. Cefais fenthyg cofnodion o'r fath yn ddiweddar, ac rwy'n ddiolchgar iawn i Anita Butler, Llanfairfechan, am hynny. Yn ei meddiant mae dau lyfr oedd yn eiddo i'w hen nain, ac yr oedd honno yn paratoi lluniaeth i'r cerddwyr a'r dringwyr a fyddai'n teithio tua'r copa o Westy'r Fictoria heibio Bing ac i fyny'r allt serth. (Roedd ei merch hefyd, sef nain Anita, yn gweini ar yr ymwelwyr, ac yn creu cryn argraff ar ambell un fel y cawn weld yn nes ymlaen). Bu'n ddigon hirben i gadw Llyfr Ymwelwyr, a'r rheini'n crynhoi eu sylwadau ynddo – boed am y tywydd, y siwrnai i'r copa neu am y lluniaeth a'r croeso yn ei chartref. Mae'r llyfrau yn dyddio o ganrif yn ôl.

Mae'n bosibl fod y gwaith o baratoi lluniaeth a llety wedi cychwyn rai blynyddoedd ynghynt gan Mrs Thomas, ond mae'r llyfr ymwelwyr cynharaf yn dyddio o fis Gorffennaf 1904, a'r teulu o Lundain a arhosodd yno yn *'very pleased indeed with tea: just returned from Snowdon.'* Dyna, wrth gwrs, y math o sylwadau sy'n britho'r llyfr ymwelwyr: rhai yn siomedig o fethu cyrraedd y copa oherwydd y tywydd neu flinder, ond pawb

yn brolio'r lluniaeth! Mae'n ymddangos i Mrs Thomas fod yn ymwneud â'r gwaith ers tua 1898 o leiaf, oherwydd ceir sylw yn 1905 sy'n nodi mai dyma seithfed ymweliad teulu o Lerpwl â'r bwthyn i gael lluniaeth.

Mae ambell un yn cyfeirio at y celfi yn y bwthyn: *'Good old fashioned Welsh hospitality; lovely tea and nice copper kettle and candlesticks.'* A dyma hysbyseb na ellir gwella arno: *This country is noted for famous things: Llanberis for beauty, Snowdon for grandeur and Bing Cottage for tea!*

Mae rhai o'r dynion ifanc oedd yn troi i mewn am banded yn amlwg yn edmygu'r ferch ifanc oedd yn gweini arnynt: *'Champion tea applied: thoroughly enjoyed it but not better than the angel that was waiting on us.'* Ac y mae teulu o Wolverhampton, ar ôl brolio'r croeso a'r bwyd i'r entrychion, yn dymuno: *'may the young lady live long and marry the man as good as herself.'* Yr oedd James Boyd o'r Iwerddom wedi dotio ar y ferch ifanc hefyd, ac yn dymuno dychwelyd yn fuan *'once more enjoying my tea and to be served by the same young lady.'*

Roedd mis Medi 1904 yn wlyb a cheir amryw gyfeiriadau at y tywydd. *'Had to turn back wet through. Got a good tea, and dried. Very kind people.'* Yn ei ddilyn ceir: *'I confirm the above in every respect.'* Ac yn dilyn eto: *'I cannot add anything to the above. Our hosts did all in their power to dry three half drowned rats. Gave us excellent tea. Hope to return under more favourable conditions so far as weather is concerned.'*

Mae ambell un yn rhoi cynnig ar bennill:

*'Fair to look upon, but hard to climb,
And a jolly good tea at a much needed time.'*

Ond yn methu gyda'r diweddglô:

*'Grace and plenty here abide,
Comfort flows on every side,
This is the place for me
When I'm far from home.'*

Mae eraill yn ceisio bod yn glyfar trwy ysgrifennu pethau fel *'Missed the view, but viewed the mist.'*

Yn ystod Mehefin 1905 daeth nifer o fyfyrwyr o Goleg y Brifysgol ym Mangor i gerdded yr Wyddfa, a chael croeso bendigedig yn y Bing. Ysgrifennodd un yn Gymraeg: *'Y tê gorau yw tê troed yr Wyddfa.'*

Ym mis Awst 1905 aeth Herbert Thompson a'i gyfeillion i'r copa gyda phabell, ac aros dros nos ar Yr Aran er mwyn gweld y wawr yn torri 'a

magnificent spectacle.'

Ar ddiwedd y llyfr ymwelwyr cyntaf ceir sylwadau arwyddocaol gan deulu o Sutton, Surrey. *'We have received more hospitality here than anywhere in our tour of three hundred and fifty miles... and deeply regret we could not make the good lady understand how thankful we were for the civility and attention we received.'* Mae'n awgrymu nad oedd Mrs Thomas yn deall digon o Saesneg i lawn werthfawrogi'r hyn roedd ei hymwelwyr yn ceisio'i egluro iddi.

Erbyn 1911, roedd y ferch ifanc landeg a fu'n gweini ac yn plesio cymaint ar yr ymwelwyr bron i ddeng mlynedd ynghynt, wedi priodi, a cheir yr un geiriau canmoliaethus am y ferch sydd bellach yn Mrs Davies.

Mae'n amlwg hefyd fod y traddodiad o gerdded i gopa'r Wyddfa gan fyfyrwyr Bangor yn parhau, a cheir cyfeiriad at y 'Bangor Summer School Party' yn Awst 1915 – *'Te da a chroeso calon.'*

Daw'r llofnod olaf ym mis Gorffennaf 1917, ond mae'n amlwg fod tudalennau wedi eu

torri allan, fel nad yw'n bosibl penderfynu a barhaodd Mrs Davies gyda'r gwaith o ddarparu llety a lluniaeth i gerddwyr yr Wyddfa.

Dyna dros ugain mlynedd o ddarparu gan ddwy genhedlaeth o'r un teulu, ac y mae'r cofnod canlynol gan deulu Earle o Woodford yn Essex yn crynhoi'r profiadau a gafodd nifer helaeth o ymwelwyr yn ystod y cyfnod hwnnw. *'After paying 10/6 to ride up this blessed old Snowdon, we found on arrival that the weather conditions were more like a London fog, and nothing but mist and wet to be seen and felt, except some burnt coffee at 6d a cup. We started to walk down and after about one mile, the mist turned to a steady downpour of fine rain, which lasted the rest of the way and wetted us right through. However, this is all forgotten in the splendid reception and hospitality at this cottage where we have been fed, dried and cared for as if at home. Shall always look forward to coming again and wish every success and blessing to the mother and fair daughter who looked after us so very kindly.'*

Does dim angen dweud mwy.

CANGEN YR URDD - CAEATHRO



Cangen yr Urdd, Ysgol Caeathro 1934 yn arddangos y darian a'r holl fedalau a enillwyd ym Mangor

(Rhes gefn, o'r chwith): Jennie Owen, Llion Hughes, Ty'r Ysgol, Cledwyn Jones, ? ? ? (Canol): Mrs T.O. Hughes, y brifathrawes, Ty'r Ysgol, ? ? ? Betty, Ceri, ? Katie May, Jennie May, Annie Jones (pianydd). (Yn eistedd): Annie, Ann, Fferm Kent, Pontrug, Miriam, ? Jennie Owen, Hilda Williams, Dwynwen, ? (Ar lawr): ? Ann Jones, ? Peri Williams, ? Bobby Roberts.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
Daeth ymateb ar fyrder i hanes llwyddiannau plant Caeathro yn yr eisteddfod ym Mangor yn 1934. Anfonwyd y llun gan Mrs Peri Evans, Deiniolen, a oedd yn aelod o gangen Caeathro ar y pryd, a rhestrir enwau'r mwyafrif o'r rhai a welir. Oes rhywun all ychwanegu at yr enwau? Gobeithio y caf fwy o wybodaeth erbyn y rhifyn nesaf.

Cerrig Milltir

Deuthum ar draws llyfr o'r enw *Croeso i Gymru* yn ddiweddar. Dim byd yn anarferol yn y teitl, ond roedd yr is-deitl yn ennyn chwilfrydedd, sef *'Rydych wedi cyrraedd carreg filltir'*. Llyfr

dwy-ieithog yw hwn yn llawn lluniau o gerrig milltir ac arwyddbyst hynafol o bob un o hen siroedd Cymru a rhai Cymraeg a Chymreig ar hyd siroedd y gororau hefyd. Yr awdur yw Chris Woodard, ac y mae'r gyfrol yn hyrwyddo gwaith Cymdeithas y Garreg Filltir. Bwriad y gymdeithas honno yw cofnodi a diogelu cerrig milltir y wlad, ond cofnodi hefyd hen arwyddbyst ac unrhyw garreg arall gydag aysgrif arni sydd i'w cael ar hyd ochrau ein ffyrdd gwledig.

Sgwn i sawl carreg filltir sydd o fewn ffiniau bro'r *Eco*? Oes yna gerrig eraill diddorol ar hyd

ochrau ein ffyrdd? Soniais yn y gorffennol am y ddwy garreg ar waelod a chopa Gallt Chwarel Glyn o'r tu allan i Lanberis sy'n cofnodi fod y tir wedi ei roi i adeiladu'r ffordd. Efallai fod cerrig tebyg yn guddiedig o fewn ein bro. Ewch allan dros dymor y gwyliau i chwilio amdanynt, a rhowch wybod i mi erbyn dechrau'r flwyddyn.

Ac i'r rhai sydd am wybod mwy am Gymdeithas y Garreg Filtir, ewch i'w safle ar y wê sef www.milestone-society.co.uk

Llyfr am dai sydd wedi eu anghofio

Llyfr a gyhoeddwyd ddiwedd y flwyddyn yw *Forgotten Welsh Houses* gan Michael Tree a Mark Baker, gyda rhagarweiniad iddo gan Dywysog Cymru. Yr unig un yn ein hardal ni sy'n cael sylw yw Llwyn y Brain, Llanrug. Yn anffodus, mae'n cael ei restru yn y llyfr dan yr enw Seiont Manor 'also known as Llwyn y Brain'. A dyna'r camgymeriad cyntaf: y gwesty yw Seiont Manor, a adeiladwyd ar safle'r hen ffermdy, ond y plas yw Llwyn y Brain. Mae'r awduron wedyn yn disgrifio fel y sefydlwyd y gwesty, ac yn ychwanegu 'it is rather sad to think of a brand-new hotel adopting the name of a nearby country house.' Anghywir eto! Pe bai hynny wedi digwydd, yna Llwyn y Brain Hotel fyddai enw'r gwesty.

Mae'r gwallau hyn yn codi amheuan am gywirdeb gweddill y gyfrol, ond o leiaf, mae'n tynnu sylw at adeilad hynafol sydd angen gofal i'w adfer i'w gyflwr gwreiddiol.

Angen gwybodaeth am Beiriannydd

Yn 1946 symudodd Philip Harris Jackson o Surrey, ble bu'n brif arolygydd gyda'r Southern Railways, i fod yn beiriannydd ar Reilffordd yr Wyddfa. Roedd yn byw yn Nhal y Don, Llanberis, gyda'i wraig, Claire Nanette. Bu farw ym mis Hydref 1951 ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Harlech. Erbyn 1959 roedd ei weddw wedi symud i Ripon House, Field Terrace, ac yno y bu hyd 1968. Nid oes sôn amdani yn Llanberis ar ôl hynny. A fu farw, neu a symudodd o'r ardal?

TY WEDI EI ANGHOFIO? LLWYN Y BRAIN



Mae aelodau o'r teulu yn awyddus i gael mwy o wybodaeth amdano ef tra bu'n byw yn Llanberis, a hefyd, beth ddigwyddodd i Claire Nanette.

Roedd Mrs Alice Roberts yn bresennol ar farwolaeth Philip Jackson. Rhwir ei chyfeiriad fel Llys Cardog. Mae Alice ac Enoch Roberts hefyd yn cael eu rhestru ymhlith y galarwyr - ond neb o'r teulu. Pam tybed y claddwyd ef yn Harlech? A oedd cysylltiadau teuluol â'r ardal honno?

Byddai'r teulu'n falch o dderbyn unrhyw wybodaeth.

Hen Enwad

Gyda diolch i Selwyn Griffith am fy nghyfeirio at y ffaith mai'r Huw Lewis a gafodd lês ar ddaliadau ger Dinas Dinorwig yn 1550 oedd rheithor Llanddeiniolen ac awdur 'Perl mewn Adfyd'. Unwaith eto, bydd mwy o'i hanes, a hanes daliadau tir aelodau eraill o'r teulu, yn rhifyn Chwefror o'r Eco.

A dyna gau pen y mwdwl ar flwyddyn arall, gan ddymuno Nadolig Dedwydd i holl ddilynwyr y golofn, a diolch unwaith eto am yr holl ymholiadau ac ymateb a fu dros y flwyddyn a aeth heibio. Felly, edrychaf ymlaen i glywed gennyh yn ystod Blwyddyn Newydd Dda eto i bawb sy'n diddori yn hanes y fro.

Anfonwch eich sylwadau neu cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir
Dinorwig. Ffôn: 870292

TYMOR Y NADOLIG. A'r Nadolig bron wrth y drws, yr ydym yn anfon ein cofion anwylaf at Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt, ond sydd yn awr yn cartrefu yng Nghartref Plas Pen Gwaith, Llanberis. Hefyd Mrs Laura Williams, Tan y Fron gynt, sydd yn cartrefu ym Mhlas Garnedd, Llanberis. Gobeithio y cewch eich dwy Nadolig Llawen.

Hefyd anfonwn ein cofion gorau at bawb yn yr ardal, gan obeithio y bydd i bawb fwynhau yr Wyl a gobeithio y bydd i Santa gofio am y plant. Nadolig Llawen i bawb.

CLWB ORWIG. Mwynhaodd aelodau y clwb Ginio'r Cynhaeaf yng Nghanolfan Blue Peris yn ddiweddar. Cyflwynwyd cardiau, blodau a chyfarchion pen-blwydd i Nellie Wyn Jones, Betty Ann Jones ac Anne Williams gan Mr Selwyn Williams ar ran Llywydd y Clwb.

Llawenydd mawr i'r aelodau oedd deall bod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen wedi cyflwyno rhodd o £100 i'r clwb. Rhoddwyd gwobrau'r raffl gan Joan Glass, Beryl Griffith a Betty Bower.

Daeth Mr Tony Griffith a Mrs Menai Griffith o Bentre Felin, Caergybi, i roi arddangosfa a sgwrs inni ar gadw gwenyn. Mae'r ddau'n arddangos a gwerthu eu cynnyrch ym marchnadoedd y ffermwyr yn Llanberis,

Porthaethwy a Chyffordd Llandudno.

Croesawyd Alwyn a Sarah Jones o Blodau Racca, Penisarwaun, yn gynnes i'r cyfarfod. Enillwyd y gwobrau raffl, rhoddedig gan Mr a Mrs Selwyn Williams, rhoddwyr y te hefyd, oedd Morfudd Jones a Sarah Jones.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Dennis Glass yn absenoldeb y Llywydd, John Cantrell.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams,
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD BLYCHAU ANRHEGION NADOLIG. Mae ein diolch yn arbennig eto eleni i bawb a gefnogodd Ymgyrch Plentyn y Nadolig a pharatoi nifer sylweddol o flychau. Rydym yn ddyledus o flwyddyn i flwyddyn i Jennie Angharad Roberts am drefnu'r ymgyrch ac eleni i Gwyn Hefin Jones am gludo'r casgliad lleol o flychau i'r ganolfan ddosbarthu yn Wrecsam.

PROFEDIGAETH. Wrth baratoi'r newyddion i'r Eco daeth y newydd brawychus am ymadawiad un o'n hAelodau ffyddlonaf, sef Emyr Williams, Clwytbont, drannoeth yr oedfa nos Sul, Rhagfyr 7fed a hynny ychydig dros ddeufis yn unig wedi colli ei briod, Joan. Rydym fel cynulleidfya wedi cael ein bylchu yn ddiweddar gydag ymadawiad nifer o aelodau ymroddedig a mawr yw ein cydymdeimlad unwaith yn rhagor â theulu'r diweddar Emyr Williams yn eu profedigaeth o'i golli ar drothwy'r Nadolig.

OEDFAON hyd ddiwedd Ionawr 2009: **Rhag 21:** am 2.00 Parch Harri Parri, Caernarfon. Oedfa arbennig i ddatlu'r Nadolig gyda lluniaeth yn dilyn wedi ei baratoi gan Caban. **Rhag 28:** am 5.30 Mr Richard Lloyd Jones, Bethel. Ionawr 4: am 2.00 Parch Gwenda Richards, Caernarfon **Ionawr 11:** am 5.30 Parch Harri Parri, Caernarfon. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd **Ionawr 18:** am 5.30 Parch Eifion W. Williams, Llanfairfechan. **Ionawr 25:** am 5.30 Parch Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys



ORIEL
CWM
Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

EIRWYN
WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO

Ffôn: (01286) 870563


Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn



Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985



**DODREFN a
LLORIAU PERKINS**



SELY GAEAF

Gwasanaeth
Mesur a Ffitio

yn dechrau am 10a.m.
Dydd Sadwrn, Rhagfyr 27

2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn: (01286) 676040
Yn ogystal â dodrefn, cofiwch hefyd am ein dewis mawr
o GARPEDI; LLENNI a LLORIAU PREN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

***** ODDI WRTH *****

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Noson cyn y Nadolig
Noson ola'r flwyddyn

Gwasanaeth Mercher arferol tan 5pm yn Llanberis

Manylion llawn ein hamserlenni ar gael ar ein gwefan:
www.kmpbus.com

Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan – Dim bysus
Dydd Calan, 1 Ionawr 2009 – Dim bysus

K.M.P.
(LLANBERIS) LTD

Y GLYN, LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4HN

01286 870880
www.kmpbus.com

YSGOL BRYNREFAIL

Lowri Elena Jones o dŷ Gwyrfaï ddaeth yn fuddugol yng nghystadlaethau y Gadair yn yr eisteddfod eleni. Dyma'i stori hi:

Egin

Cripiodd breichiau hir, melynaid yr haul i fewn drwy'r ffenestr ben bore, yn goleuo a chynhesu'r ystafell wely fel ffwrnais lo. Ymestynnai'r pelydrau i fewn drwy'r bwlch tenau yn y llenni melyn, blodeuog a dawnsiai'r molecylau llwch yn y strbyn hir, cynnes. Tu ôl i'r llen anadlai'r awel yn ysgafn a mwyn, yn sibwrdd a sisial rhwng y dail ifainc, gwyrdd. Safai'r coed yn gadarn ond hamddenol gyda'r adar bach yn canu'n swynol ar eu cangau cryf. Llithrai dŵr y nant yn slic dros y cerrig gan sbuncio i fyny a gwlychu'r gwair fel gwreichion tân gwyllt yn ffrwydro.

Yn ôl yn yr ystafell wely fechan gorweddai Lois yn glyd a braf o dan ei gobenydd meddal. Ymlaciai ei gwallt hir, melyn ar ei hysgwyddau bychan brau, a gorweddai ei hamrannau yn ysgafn ar waelod ei llygaid cau. Diniwed ac mor ifanc oedd ei hwyneb esmwyth, llonydd, gyda'i thrwyn smwt yn anadlu'n araf i lawr ar ei gwefusau llawn, coch. Gwingai bob hyn a hyn, tra crwydrai ei meddwl yn ddwfn mewn breddwydion perffaith, ymhell o'r byd a'i boenau brwnt.

Yna, yn araf deg, egyr ei llygaid glas pefriol. Ymestynna ei chorff yn hir fel pensil tenau, yn tynhau a chyfangu pob cyhyr bychan. Egyr ei cheg yn llydan gan lyncu cegiad anferth o aer i lenwi ei hysgyfaint. Cama allan o'r gwely clyd i'r ystafell felen, ffres. Agora'r llenni gan edrych allan ar y caeau gwyrdd a gwêl ei thad yn gweithio ar y cae gyda Moss y ci yn rhedeg o gwmpas fel dyn gwallgof.

Roedd hi'n ddiwrnod braf o wanwyn a'r haul yn codi calon pawb gyda'i rym pwerus. Pranciai'r wŷn bach yn hapus a llon drwy'r gwllith ar y gwrychoedd a glymai amdanynt fel gwe pry cop. Roedd hi'n adeg hardd iawn o'r flwyddyn gyda'r blodau bach yn dechrau blaguro, yn dechrau eu bywyd. Blodau bychan yn agor ac yn newydd i'r byd, yn gweld yr haul am y tro cyntaf. Bron fel Lois, yng ngwanwyn ei bywyd, newydd droi un deg saith, gyda chymaint o bosibiliadau a chyfleoedd o'i blaen. Roedd Lois yn ddynes ifanc yn dechrau tyfu i fyny ac yn dechrau blaguro. Ar y tu allan roedd Lois yn hardd ac yn blaguro'n grand, ond ar y tu fewn roedd hi'n crino ac yn gwywo. Teimlai Lois fel ei bod wedi'i charcharu a'i chaethiwo. Hi oedd yn sownd yn ngwe pry cop bywyd. Hi oedd am ddinistrio blagur newydd, hi oedd yn dwyn fflam. Hi oedd yn

lladd.

Boddai Lois yn ei theimladau euog, ofnus ei hun. Roedd popeth yn mynd rownd a rownd yn ei phen. Roedd y syniad o ddinistrio bywyd yn bwyta ei thu mewn, ac yn ei thagu. Deuai teimlad o nerfusrwydd ac ansicrwydd drosti, a oedd hi'n gwneud y peth iawn? Lladd ei phlentyn ei hun. Erthyliad. Dymchwel pob syniad hapus o fywyd diniwed y plentyn hwn. Roedd y syniad o ladd plentyn yn pwyso ar ei stumog, yn corddi tu fewn iddi. Teimlai fel chwydu, gwagio ei chydwybod a'i daflu ymhell oddi wrthi. Pam oedd hi'n teimlo fel hyn? Gwyddai Lois yn iawn na fyddai ei rhieni yn hapus o gwbl. Hithau'n ferch ffarm lân, loyw, wastad yn mynd i'r capel. Hi oedd cannwyll llygaid ei rhieni. Mi fuasai cael plentyn yn chwalu eu perthynas agos nhw yn deilchion. Mi fuasai'n dinistrio popeth i'w theulu. Gwelai ei rhuban gwallt coch yn gorwedd ar y bwrdd wrth ymyl ei gwely, roedd y rhuban yn clymu'n dynn am ei chydwybod, ac yn crogi'r bywyd a'r egni allan ohoni. Teimlai boen annioddefol yn pwyso ar ei chalon, roedd hi'n gawod o euogrwydd. Roedd yr holl boen a gofid yn ei threchgu. Llithrai ei dagrau tawel yn araf i lawr ei bochau. Beth allai hi ei wneud? Doedd ganddi ddim dewis, fe geisiai berswadio ei hun mai breuddwyd oedd y cyfan. Byddai popeth wedi'i anghosio o fewn mis neu ddau. Fyddai'r plentyn yn ddim ond atgof mud yn ei meddwl, yn ddim ond cysgod craith ar ei chalon.

Erthyliad. Lladd plentyn. Dinistrio bywyd ifanc. Dwyn fflam bywyd. Troi ei chefn ar ei phlentyn ei hun. Beth oedd hi'n ei wneud? Teimlai fel cachgi, yn afiach o hunanol, ei chamgymeriad hi oedd hyn. Mae'n rhaid iddi ei harwain ei hun allan o'r smonach yma. Ydy hi'n ddigon cryf i fod yn fam? Teimlai Lois fel y blodyn yn gwywo'n araf a llenwai ei meddwl gydag anobaith. Roedd ei chalon yn sgrechian, yn cael ei churo dro ar ôl tro nes ei bod yn gleisiau glas fel patrymau celtaidd. Brifai drosti, ei dagrau yn hallt a'i gwaed yn oer, tra llenwai ei llygaid gyda gwythiennau bach coch fel nadroedd bychain yn barod i'w bwyta. Roedd hi'n crino y tu fewn, yn marw. Rhoes ei llaw ar ei bol gan feddwl a allai hi fynd ymlaen â hyn? Roedd hi'n dinistrio bywyd. Ailadroddai hyn yn ei meddwl fel tôn gron. Er mor naturiol, mor dlws fuasai'r plentyn, ei ddwylo bychan, ei groen esmwyth, ei lygaid trawiadol yn synnu. Gallai gau ei llygaid a gweld ei phlentyn yn ei chesail, yn saff ac yn glyd. Ond, er hyn i gyd,

doedd ganddi hi ddim dewis. Roedd hi'n gachgi.

Cerddai i lawr y coridor hir gwyn, y paent yn berffaith oer; yn rhewllyd. Gwisgai amdani ffrog hir, ddi-siâp las. Disgynnai'r llenni llwyd yn llipa am y llawr. Llenwai'r arogl bwyd stêl a'r hylif diheintio ei ffroenau. Roedd naws oeraidd, dideimlad, clinigol i'r lle. Nid bod dynol oedd hi rhagor, dim ond enw dibwys ar restr faith y doctor.

Gam wrth gam teimlai ei hun yn syllu ond ddim yn gweld, yn gwrando ond ddim yn clywed. Roedd hi'n llithro i mewn i fyd arall. Dyma ei chymau cyntaf hi i'r bywyd newydd o'i blaen. Dyma ei hegin newydd hi, ei bywyd newydd o iselder, anobaith ac euogrwydd. Gwelai'r drws o'i blaen a'r golau gwyn llachar yn ei dallu. Roedd fel y drws rhwng nefoedd ac uffern. Oedodd, edrychodd Lois yn ôl ar ei bywyd melyn, gwyrdd, cynnes a chlyd. Diferodd y chwys oer i lawr asgwrn ei chefn ac yna camodd ymlaen i'r dyfodol.

Band Pres Hŷn Gwynedd a Môn yn yr Albert Hall

Ddydd Mawrth, Tachwedd 13, cychwynnodd criw o bobl ifanc o bob cwr o Wynedd a Môn draw i Lundain i gymryd rhan mewn cyngerdd a gynhaliwyd dan nawdd Music For Youth yn yr Albert Hall. Yn aelodau o'r band, roedd chwe disgybl o'r ysgol - Anest Bryn (Bl. 11), Danial Ellis (Bl. 11), Manon Elwyn (Bl. 10), Siôn Elwyn (Bl. 12), Cai Jones (Bl. 12), a Declan Jones (Bl. 13), ac un cyn-ddisgybl, Lois Eifion o Benisarwaun. Nid cynrychioli Band Pres Hŷn Gwynedd a Môn yn unig yr oeddem ond yn wir, cynrychioli Cymru gyfan yn y neuadd fawreddog ym mhrifddinas Lloegr.

A sut y digwyddodd hynny? Gyrru CD o'n rhaglen i gystadleuaeth Music For Youth ddechrau'r flwyddyn a chael drwodd i'r rownd nesaf a gynhaliwyd yn Neuadd Symffonig Birmingham ym mis Gorffennaf. Er nad enillon ni wobwr ar y diwrnod yn Birmingham, cafodd ein harweinydd, Gwyn Evans, alwad ffôn gan drefnwyr y gystadleuaeth yn ei hysbysu bod y beirniaid wedi ein dewis ni i gynrychioli holl gystadleuwyr y gystadleuaeth ac y bydden ni'n cael mynd i Lundain i berfformio yn yr Albert Hall yn y Schools Proms.

Er mor hir y daith, roedd hi'n werth pob eiliad wedi cyrraedd y brifddinas. Cyrraedd Gwesty'r

Ibis, yng ngorllewin Llundain, a chychwyn yn syth am Kneller Hall, neuadd yn perthyn i gerddorion y Fyddin, a oedd o fewn tafliad carreg i Stadiwm Twickenham. Ond doedd dim amser i oedi, a hithau'n tynnu am saith o'r gloch erbyn hyn, felly aethom ati i ymarfer ar gyfer y diwrnod pwysig!

Y bore wedyn, â dim byd yn galw tan y p'nawn, aethom i gyd am dro i Oxford Street, stryd siopio enwog Llundain. Gellid dweud - nefoedd i'r genethod, ond hunllef i'r hogiau! Aeth rhai i weld Llysgenhadaeth America, oedd ar y stryd nesaf. Felly, rhwng popeth, aeth y bore'n sydyn i bawb, a chyn i ni droi rownd, bron, roedd hi'n amser ei throi hi am y neuadd grom.

Cyrraedd yno, aros am ychydig cyn cael ein harwain i'n hystafell newid ym mherffedion yr adeilad. Ac wedyn ymarfer byr ar y llwyfan. Wrth gerdded oddi ar y llwyfan roedd pawb yn siarad am yr acwsteg ac atsain anhygoel y neuadd ac yn edrych ymlaen yn aruthrol am y perfformiad yn y nos.

Erbyn saith o'r gloch roedd pawb yn barod am y noson fawr. Roedd ein perfformiad ni yn yr ail hanner, felly cawsom gyfle i wrando ar y grwpiau eraill yn perfformio. Ac yno un uchafbwynt annisgwyl, ac eithrio cael perfformio ar y llwyfan byd-eang, wrth gwrs, oedd i ni fod yn gyfrifol am ddechrau 'ton Fecsanaidd' a aeth o gwmpas y neuadd nifer helaeth o weithiau! Nid yn unig hynny, mi wnaethon ni'n siwr fod pawb yn y neuadd yn gwybod ein bod yn Gymry drwy weiddi'r siant enwog "Ogi! Ogi! Ogi! Oi! Oi! Oi! Oi!" Braf hefyd oedd gweld o leia' hanner dwsin o ddreigiau cochion yn chwifio'n falch yn y gynulleidfa.

O'r diwedd daeth ein hawr fawr, a'n perfformiad yn sicr yn un i'w gofio - â phawb yn y neuadd yn amlwg wedi'u plesio a'u llwyr ddiddanu gyda'n rhaglen a seiliwyd ar stori Branwen, o'r Mabinogi, a'i hanes yn mynd o Gymru i Iwerddon, ac yna'n ôl i Gymru. Dechreuodd ein perfformiad gyda ffanffer, yna jig Wyddelig, gyda dau aelod o'r band, Anest Bryn a Gareth Rhun Jones, yn dawnsio gwerin ym mlaen y llwyfan. Clowyd ein rhaglen gyda Gwyr Harlech i gyfleu Branwen yn dychwelyd i Gymru.

Felly, gan gydganu 'Hen Wlad Fy Nhadau' wrth adael y neuadd, i ffwrdd â ni yn ôl am y gwesty am noson o hwyl a dathlu!

Gwaetha'r modd, gadael fu raid ac, am naw o'r gloch y bore y diwrnod wedyn, yn ôl â ni am Gymru fach gan adael adlais stori'r Mabinogi yn atseinio o gylch waliau'r Albert Hall yn Llundain.

SIÔN ELWYN HUGHES

YSGOL BRYNREFAIL

*Enillydd Tlws yr Ifanc yn
Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2008*
FFION ERIN WILLIAMS, ERYRI

Dan y Don

Chwipiodd gwallt esmwyth euraidd Eurig wrth iddo gerdded ochr yn ochr gyda'i ffrindiau gorau. Teimlai ei draed blinedig fel dau floc o goncrit wrth iddo lusgo'i hun tua'r ysgol gan siarad deuddeg y dwsin.

'Di'n ymenydd i heb 'di troi'n mlaen yn iawn bora 'ma,' meddai Daniel o ochr chwith Eurig yn flinedig.

'Na finna,' meddai Melfyn gan ddylyfu gen, 'Dydi 'nghorff i heb ddod dros y sioc o ddeffro mor fuan!'

Chwarddodd y bechgyn yn uchel gan adael Caitlin yn edrych yn feddylgar i fyny at yr awyr, ei bag ysgwydd du yn taro ei hochr.

'Be sy' Caitlin?' gofynnodd Eurig yn syn, wrth sylwi nad oedd Caitlin yn ymuno gyda'r hwyl. Hi oedd yn cychwyn y joc fel arfer ac, i ddweud y gwir, dyna sut roedd Eurig a hithau wedi dod yn gymaint o ffrindiau yn yr wythnos gyntaf ym mlwyddyn saith.

'O dim,' atebodd gan ysgwyd ei phen ac edrych yn flin ar y bechgyn, 'a well i chi chwipio'ch ymennydd i mewn i siâp, rydym yn blwyddyn deg rŵan, does 'na ddim amser i'ch lol chi!' A gyda hynny aeth ar garlam i lawr y palmant ac i mewn drwy giataiau'r ysgol.

'Waw,' meddai Melfyn, 'Be oedd hynna i gyd amdan?'

Ymlaciodd Eurig ei goesau wrth iddo eistedd i lawr ar gadair frown blastig yn yr ystafell Fathemateg. Estynnodd ei lyfrau o'i fag a'u gosod ar y bwrdd. Llygadodd y daflen waith o'i flaen ac ochneiodd. Doedd dim ymlacio yn mynd i fod yn y wers yma chwaith, gyda'r athro wedi rhoi taflen ddwy ochrog o symiau iddo, a gan ei fod yn ysgrifennu rhagor o symiau dwl ar y bwrdd rhyngweithiol. Aeth llygaid Eurig o'r daflen i flaen yr ystafell lle roedd Caitlin yn eistedd ymysg pedair geneth arall. Y pump ohonynt â'u pennau i lawr wedi cychwyn ar y daflen symiau yn barod. Ochneiodd Eurig, gafaelodd yn ei feiro ddu blaen a chychwynnodd ar y gwaith. Roedd hon yn mynd i fod yn wers hir arall.

Ar ddiwedd y prynhawn

cyntaf hwnnw roedd Eurig, Melfyn a Daniel yn eistedd ar wal gardd gefn Daniel. Doedd dim sôn am Caitlin pan ganodd y gloch yn uchel ac felly, hanner awr wedyn, roedd y bechgyn yn ymlacio gyda diod oer.

'Yr un hen stori ydi wedi bod gan bob athro heddiw,' cwynnodd Eurig.

'Ia, gwrandwch blant, da chi ym mlwyddyn deg nawr, fydd dim amser i ddim lolian, mae TGAU o'ch blaen!' atebodd Melfyn gan droi o'i lais dwfn i lais snobyddlyd main ei athrawes Gymraeg, Miss Prydderch. Chwarddodd yr hogiau ond dim am hir, roedd meddwl pawb ar Caitlin.

'Gwrandwch, well i mi fynd,' meddai Eurig gan neidio oddi ar y wal. 'Fe dria i gael gafael ar Caitlin wedyn.' A gyda hynny brasmgmodd drwy'r giât bren ac i lawr y ffordd a'i ben yn ei blu.

* * *

'Tyrd Caitlin, piga'i fyny,' mwmialodd Eurig wrtho'i hun gan eistedd ar y grisiau. Roedd wythnos gyfan wedi bod ers i Eurig ddweud y bysai'n siarad gyda Caitlin ond roedd o wedi trio pob dim. Ffonio'r tŷ, ffonio'i ffôn symudol hi, galw yn y tŷ, ond doedd na byth ateb. Rhoddodd Eurig y ffôn yn ôl yn ei grud a cododd i fyny. Cerddodd i mewn i'r ystafell fwyta lle roedd ei fam yn gweithio wrth y bwrdd ar ei gliniau.

'Unrhyw lwc?' gofynnodd ei fam, gan godi ei phen.

'Na, dim,' atebodd yn ddiamynedd wrth eistedd dros ffordd i'w fam ar y bwrdd. O'i flaen roedd pentwr o lyfrau ac ambell i daflen wedi ei gwasgaru o'u cwmpas. Dim ond wythnos oedd wedi bod ac yn barod roedd o wedi cael gwaith cartref yn bob pwnc. Efallai mai prysur gyda'i gwaith oedd Caitlin. Dyna roedd ei fam wedi dweud wrtho. Ond roedd Eurig gyda llawer o waith hefyd ond nid oedd o wedi anghofio am ei ffrindiau. Wel dim fy mhroblem i ydi hynny, meddylodd. Mae'r wythnosau nesaf yma'n mynd i fod yn ddigon caled heb orfod poeni am Caitlin.

Ac roedd Eurig yn iawn hefyd. Roedd yr wythnos nesaf yn anodd iawn. Roedd pob athro ac athrawes yn gweithio'r disgyblion yn galed. Nid oedd Eurig wedi cael hwyl gyda Daniel a Melfyn ers misoedd, heb sôn am Caitlin a oedd i'w gweld ambell waith yn y coridor yn llusgo'i bag, gyda golwg boenus ar ei hwyneb. Roedd Eurig, Melfyn a Daniel wedi cytuno mai poeni am ei arholiadau roedd Caitlin a dim arall.

Un amser egwyl braf yng nghanol Ionawr eisteddai Eurig a Melfyn ar y gwair maethlon ar

gae cefn yr ysgol, tra pwysodd Daniel ar y post rygbi. Roedd y Nadolig wedi hen fod ac nid oedd y tri bachgen wedi cael llawer o amser i ddathlu o dan yr holl bwysau gwaith. Roedd Eurig wedi ffeindio'i hun ymysg pentyrau o bapurau gwaith tra roedd ei deulu yn mwynhau gêm o Monopoly.

'Ti'n gwybod be?' gofynnodd Eurig, 'dwi wedi cael digon o'r holl bwysau gwaith 'ma. Dwi angen brêc bach neu mi fydda i'n cracio!'

'A finna,' atebodd Melfyn, 'ond does dim dewis ganddon ni ond gwneud y gwaith!' Tawelodd y ddau am funud ac edrychodd Eurig draw ar y criw o blant ym mhen draw'r cae.

'Dwi'n gwybod, be am i ni fynd lawr i'r afon am y dydd?! Fel roeddem yn arfer wneud!' ebychodd Daniel yn hapus.

'Ie gr...' cychwynnodd Eurig gan stopio'n sydyn wrth weld Laura, geneth o'r un flwyddyn ac ef, yn rhuthro tuag atynt ac yn gweiddi ei enw.

'O Eurig!' meddai Laura mewn panic. 'Tyrd yn sydyn. Mae Caitlin yn cael ei bwlio gan ryw hen hogiau annifyr o'r pumed dosbarth!'

Llamodd Eurig i'w draed a rheddodd fel y gwynt am y plant ar ochr arall y cae, a Daniel a Melfyn yn dilyn wrth ei gefn. Cyn iddynt allu cyrraedd yn agos i'r criw enfawr gwelodd Eurig Caitlin yn neidio fel cwningen mewn panig o ganol y plant a llamu am y cytiau Ffrangeg. Trodd Melfyn a Daniel i redeg amdani ond stopiodd Eurig nhw.

'Peidiwch, fe af i,' meddai yn gryf gan frasgamu ar ôl Caitlin.

Pan gyrhaeddodd Eurig at y cytiau roedd Caitlin yn eistedd ar y grisiau bychain oedd yn arwain am y drws, a'i phen yn ei dwylo.

'Caitlin?' gofynnodd Eurig yn ddistaw. 'Paid â phoeni, fydd popeth yn iawn, gei di weld.' Cododd Caitlin ei phen yn sydyn.

'Sut allet ti ddweud hynna?! Mae'r arholiadau yn dod, rwy'n cael fy mwlio ac mac...'

Rhoddodd Caitlin ei phen yn ôl yn ei dwylo gan wylo, ond dim cyn i Eurig gael gweld beth oedd ar ochr ei hwyneb.

'Be sy ar ochr dy wyneb di?!' ebychodd mewn sioc, gan edrych ar y clais anferth ar ei boch. 'Dim y bechgyn na wnaeth hynna, gobeithio?!'

Wylodd Caitlin yn fwy fyth gan ysgwyd ei phen.

'Naci,' meddai gan grynu, 'fy nhad.'

'DY DAD?!' gwaeddodd Eurig.

Ni wastraffodd Eurig ddim amser ar ôl hynny. Gadawodd Caitlin wrth y drws a rhedeg yn ôl at Melfyn a Daniel ac adrodd yr hanes wrthynt. Dywedodd Eurig ei fod o am fynd â Caitlin adref i'w dŷ o y funud honno, dim ots am yr ysgol. Ar ôl

cyrraedd yn ôl at Caitlin gafaelodd yn ei bag a'i harwain at y wal wrth ochr y ffordd fawr. Neidiodd y ddau drosti gan gyrraedd tŷ croesawgar Eurig ymhen deng munud, lle roedd ei fam wedi dychryn o glywed y drws cefn yn agor. Ond, ar ôl clywed y newyddion, fe neidiodd i helpu. Ffoniodd fam Caitlin a daeth hi draw yn syth. Roedd y prynhawn hwnnw yn un emosiynol iawn i Eurig ac roedd yn rhaid iddo fynd yn ôl i'r ysgol a'r ôl gwybod y buasai Caitlin yn iawn oherwydd ni allai ddelio gyda'r holl grio. Ar ôl i'r ysgol orffen cafodd Melfyn a Daniel wybod am yr holl ddigwyddiadau.

'Felly dyna pam roedd hi'n poeni am y TGAU felly,' gofynnodd Daniel, 'Ei thad oedd yn dweud ei bod hi'n rhy ddwl?'

'Ia,' atebodd Eurig, 'ond does dim rhaid iddi hi fyw gydag ef ddim mwy, diolch byth.'

'Yr hen shinach bach,' sibryddodd Daniel yn flin.

* * *

Pythefnos wedyn roedd Caitlin yn ôl ati ei hun yn hapus i gyd a'r clais ar ei gwyneb bron â diflannu. Roedd hithau a'r bechgyn yn dal o dan bwysau arholiadau ond doedd neb yn poeni cymaint amdani hi nawr. Roedd y bechgyn yn falch o gael Caitlin yn ôl gyda nhw ac wedi mynd â hi i lawr at yr afon am bicnic. Roedd mam Caitlin wedi paratoi amrywiaeth o fwydydd blasus iddynt ac eisteddant ar garreg enfawr llyfn ar lan y dŵr.

'O, Cait, mae'r brechdanau ma'n lyfli!' ebychodd Melfyn, gan frathu i mewn i frechdan dwrci a salad.

'Ia wel, mae mam wedi cael mwy o amser i wneud pethau fel coginio ers i ni symyd i mewn gyda Anti Rhian,' atebodd Caitlin gyda gwên.

Roedd Caitlin a'i mam wedi symyd i mewn gyda ei Anti Rhian, gan adael ei thad creulon ar ôl yn yr hen dŷ llonydd. Roedd Eurig wedi helpu Caitlin symyd mewn i'w hystafell wely newydd wythnos yn ôl.

'Hogia?' meddai Caitlin yn ddistaw, gan edrych o gwmpas wynebau bodlon y bechgyn.

'Ia,' atebodd y tri fel côr.

'Wel,' meddai Caitlin yn betrysgar, 'dwi ond eisiau deud diolch. Am bob dim.' A cyn i'r bechgyn gael ymateb roedd Caitlin wedi taflu ei breichiau amdanynt a'u tynnu i mewn am gwtsh. Nid oedd Eurig yn gwybod sut i ymateb felly arhosodd yn stond gan edrych ar Daniel, a oedd â'i lygaid ar agor led y pen. Tagodd Melfyn yn lletchwith a, gan wenu, gadawodd Caitlin iddynt fynd.

'Croeso,' meddai Eurig gan wenu yn ôl. 'Fydd pob dim yn iawn rŵan.'

Estynnodd Eurig am ei llaw a gafael yn dynn. Ac mi roedd yn wir, roedd popeth yn iawn.

Nodir gan
Lywodraeth Cymuned Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd oedd: £30: Ms Sylvia Thompson, 21 Bro Waen; £20: Mrs Dilys Griffiths, 14 Tref Eilian; £10: Mrs Ffion Haf Hughes, Cae Trefor.

DYMUNO'N DDA. Dymunwn adferiad hapus i Meirion Williams, Stad Tref Eilian o'i swydd yn ffatri Feranti, Bangor.

DATHLU PEN-BLWYDD. Dydd Gŵyl San Steffan, bydd Mrs Jane Roberts, Glasfryn, Stad Bro Waun, yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Dymuniadau gorau am ben-blwydd hapus i chi, Jane.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Alice M. Hughes, 3 Bryn Golau, ac i Mrs Alma Jones, Tân y Fron, wedi iddi dderbyn llawdriniaeth. Hyderwn eich bod eich dwy yn teimlo'n well.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Emyr Owen, Yr Efail, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Anfonwn ein cofion cynhesaf hefyd at Marian Wyn Jones, sydd wedi symud o gartref preswyl Willow Hall, Caernarfon, i gartref preswyl Llantysilio, Ynys Môn.

CYDYMEIMWLN yn ddwys â Mrs Rosalind Owen a theulu Bryn Môr yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn iddynt.

CYFARCHION YR WYL. Dymunwn anfon Cyfarchion y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i holl drigolion y pentref, a chofion at y rhai sydd mewn cartrefi preswyl.

PLAID CYMRU. Cynhelir Cwrdd Blyneddol y Blaid ar Ragfyr 8fed yng Nghaban Grefftau Antur Waunfawr.

Ymhlith gweithgareddau'r flwyddyn fydd: Noson Gyri (Ionawr 24), Swper Gwyl Ddewi (Chwefror 28), Teithiau Cerdded a Barbeciw (Mai a Gorffennaf). Does dim raid i chi fod yn aelod o'r Blaid i ymuno yn ein gweithgareddau cymdeithasol. Manylion oddi wrth Eurig Wyn (650512) neu Rob Jones (650370).

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i holl gyfeillion yr Antur ym
mro'r Eco

Antur Waunfawr

01286 650 721

www.anturwaunfawr.org



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn) • **9.00 - 12.00** (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH CARMEN A PHAWB
YN NHAFARN Y



WAUNFAWR Ffôn: (01286) 650218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

**Dewch gyda'r trê'n stêm
o Gaernarfon ac aros
AM GINIO DA!**

Rydym yn syrffio bwyd blasus drwy'r dydd,
bob dydd o 11 am - 8.30 pm

A 'does dim rhaid dod ar y trê'n!
Cofiwch... **bob dydd Sul...**
cinio traddodiadol
Bwyd cartref blasus
o gynnyrch lleol

Mae pawb yn

SIOP SGLODION Y PENTREF

THE VILLAGE CHIPPY

WAUNFAWR, Ffôn: 650683

yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref



*Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn*

**SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL, WAUNFAWR**

Ffôn: (01286) 650235

Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445
OFFER DIFFODD TÂN — masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.



Mae
**Tegid a Samantha
Pritchard**



**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**

Ffôn: (01286) 650 291

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod
y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

- ★ O LEIAF 60 O WELAU MEWN STOC
- ★ 5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
- ★ 40 O '3-PIECE SUITES'

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Megan, 56 Glanffynnon, Llanrug, Howyn, Ian a Nia, ddiolch o galon am y gefnogaeth a phob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt ar ôl marwolaeth Cled. Diolch am yr holl roddion hael at Feddygfa Llanberis a Ward Cybi, Ysbyty Gwynedd.

Hefyd dymuna Megan Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu a'i ffrindiau oll.

YSGOL DOLBADARN 1938-2008. Ar 20 Tachwedd fe gynhaliwyd diwrnod o ddathliadau i nodi bod yr ysgol yn 70 oed. Yn ystod y bore fe gafwyd gwasanaeth arbennig yn yr ysgol. Ceisiwyd dilyn rhaglen y gwasanaeth agoriadol gwreiddiol cyn belled ag oedd modd. Gwahoddwyd rhai oedd yn ddisgyblion yn yr ysgol 70 mlynedd yn ôl i ymuno yn y dathliadau a recordiwyd y cyfan fel archif ar gyfer y dyfodol.

Cyflwynodd Elin Mai yr emyn 'Cofia'n Gwlad', yr emyn agoriadol yn rhaglen 1938, a chyfeiliwyd iddi gan Iwan Williams. Cyflwynodd yntau hefyd gyfarchion fel un o brif ddisgyblion Ysgol Brynrefail a rhannu rhai o'i atgofion fel cyn-

ddisgybl mwy diweddar. Rhanodd y Parch John Pritchard rai o'i atgofion fel cyn-ddisgybl, rhiant a llywodraethwr, gan gyfaddef nad oedd yn rhy hoff o fynychu'r ysgol ar y dechrau! Soniodd Mr John Hugh Hughes am atgofion o'i ddyddiau fel Pennaeth, yn cynnwys ambell ddigwyddiad doniol ar deithiau ysgol. Cyflwynwyd eitemau amrywiol gan ddisgyblion heddiw yn cynnwys pytau am hanes yr ysgol a sefyllfaoedd o'r Llyfr Log a'r Llyfr Cosb. Yn ystod y cyfarfod hefyd fe gyflwynwyd Beiblau Cymraeg a Saesneg i'r ysgol gan Mrs Pitts a'r teulu er cof am Mr William John Pitts fu'n ofalwr yn yr ysgol am gyfnod. Roedd ddisgyblion Blwyddyn 6 yn hynod o falch o gyfarfod Yncl Goronwy (Mr Goronwy Owen). Roedd ef wedi teithio yn unsydd o dde Cymru i fod yn bresennol. Mae ef yn dipyn o arwr gan y dosbarth gan iddo lythyru'n gyson efo nhw dros y misoedd diwethaf efo'i atgofion o'i amser yn Llanberis fel disgybl a 'pupil teacher'. Mae wedi gwneud sawl llun hefyd i ddarlunio rhai sefyllfaoedd. Cymaint oedd eu diddordeb yn ei hanesion nes iddo ddod yn ôl yn hwyrach yn y dydd i barhau i sgwrsio efo'r dosbarth.

Yn dilyn y cyfarfod cafodd y gwahoddedigion baned a chyfle i rannu mwy o brofiadau efo rhai o'r plant hynaf ac astudio rhai hen luniau. Gyda'r nos cafwyd disco dathlu a'r DJ oedd Martin Roberts.

Diolch i bawb o'r staff am eu gwaith yn paratoi ar gyfer y cyfarfod ac i staff y gegin am wneud y deisen ben-blwydd.

Englyn y Dathlu

Â'i gwaith yn llawn gobeithion,
mae'r addysg
A'r ymroddiad ffyddlon
Yn cynnal yr ardal hon
Drwy ei huchel ymdrechion.
Y PRIFARDD IEUAN WYN



Goriad arbennig a gyflwynwyd yn y seremoni agoriadol yn 1938 gan yr adeiladwyr i Gadeirydd y Rheolwyr.

GENEDIGAETH. Rydym yn hynod o falch o nodi bod Mrs Sharon Davies wedi cael merch - Alaw Llyfni. Pob dymuniad da i'r teulu ifanc.

YN GWELLA. Braf yw nodi bod Mrs Gwenda Harding yn gwella wedi ei llawdriniaeth. Rydym hefyd yn falch o ddeall bod y Cyngorydd Trefor Edwards hefyd yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty.

GWEITHGAREDDAU'R NADOLIG. Diolch i Siôn Corn am ddod i weld y plant yn ein Ffair Nadolig ar 4 Rhagfyr ac am dderbyn eu harchebion. Diolch i bawb a gyfranodd at lwyddiant y noson.

Nos Fawrth, 16 Rhagfyr, bydd Gwasanaeth Carolau yn yr Eglwys. Cyn diwedd y tymor hefyd bydd y plant wedi cael cinio Nadolig efo parti i ddilyn a thaith i'r Pantomein.

AILGYLCHU. Bu ddisgyblion o'r ysgol yn cystadlu mewn cystadleuaeth creu addurn Nadolig o ddeunydd wedi ei ailgylchu.

PRIODAS AUR. Dymuna Stanley a Phyllis Jones, 60 Dôl Elidir, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a gawsant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar Dachwedd 29. Diolch i chwi oll!

DIOLCHIADAU. Dymuna Ernest Owen, 8 Rhes Efrog, ddiolch o galon i'w deulu a

ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch yn fawr hefyd am yr arian £300, a dderbyniwyd at yr Ambiwylans Awyr.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymuna Alwena, 8 Rock Terrace, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon Cardiau Nadolig y tro yma.

DYMUNIADAU. Dymuna Goronwy a Heulwen, Stryd Ceunant, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu a ffrindiau, gan na fyddant yn anfon cardiau eleni. Gyda llawer o ddiolch am yr ymweliadau ar galwadau ffôn.

DIOLCH. Dymuna Trefor a Heulwen Edwards ddiolch yn fawr iawn am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd Trefor yn ystod ei anhwylder diweddar. Hoffent ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'u cydnabod gan na fyddant yn anfon Cardiau Nadolig eleni.

COR MEIBION DYFFRYN PERIS

Ar Dachwedd 25ain bu'r Cor yn cynnal cyngerdd, ynghyd â Chôr Plant yr ysgol leol, yn Bodffordd. Roedd elw'r noson i'w rannu rhwng yr elusen, Tearcraft, ac adran pensïynwyr y pentref.



Disgyblion a enillodd wobrau am greu addurniadau Nadolig o ddeunydd wedi ei ailgylchu. Trefnwyd y gystadleuaeth gan Ganolfan Arddio Seiont.

NOSON I'W WARBI THEATR SEILO CAERNARFON NOSON I'W CHOFIO!!

**SADWRN 31ain
IONAWR 2009
am 7.30**

Tocynnau £10.

yn Siop Na Nog Caernarfon
Awen Menai, Menai Bridge
Megan Williams 01286 674013
Brian Richardson 01286 675446
Gareth Jones 01286 650812

Gareth Owen Yn Cyflwyno
JOHN EIFION
HOGIA'R WYDDFA
DYLAN A NEIL
PIANTEL
HOWARD HUGHES
GARY JONES
SARAH LOUISE, MONTRE
Cyfeilydd- Annette Bryn Parri

**Yr elw i gyd tuag at
"The Warburton Trust"**

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

HO! HO! HO!

www.amgueddfacymru.ac.uk

national
slate
museum
lechi
amgueddfa
cymru

**AR AGOR
TRWY'R
FLWYDDYN!**

Pasg - Hydref
10am - 5pm bob dydd
Hydref - Mawrth
10am - 4pm Sul - Gwener
Ar gau 24, 25, 26 Rhagfyr
a 1 Ionawr 2009

☎ 01286 870630

**PARTI
NADOLIG**

Rhagfyr 22 12pm - 3pm
★ Siawns olaf i weld Sion Corn
cyn y diwrnod mawr!
★ Sioeau hud
★ Cyfle i wneud crefft
nadoligaidd i fynd adref!

Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa a dymuniadau
gorau am flwyddyn newydd dda

**Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco**

Hoffwn ddiolch i'n
cwsmeriaid lleol am eu
cefnogaeth trwy gydol y
flwyddyn!

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban
cyf

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

**THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL**
LLANBERIS
with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (0)870 832 9903

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

SWIGOD A SEBON

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088 GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.



E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch

*Eglwys Sant Padarn
Nos Sul Rhagfyr 21^{ain}
am 7.30 yh*

**Cyngerdd
Nadoligaidd**

yng nghwmni
LL55
(Cor Unedig Eglwysi Llanberis)

£3. i Oedolion Plant Ysgol
Gynradd am Ddim

Tocynnau gan aelodau y Côr
neu ar y drws

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

EISTEDDFOD BENTREF PENISARWAUN.

Roedd bwrllwm cystadlu eto eleni yn yr Eisteddfod Bentref, gyda neuadd yr ysgol dan ei sang o rieni a phlant ac oedolion. Y beirniaid oedd Elfed Morris (Cerdd); Carwyn John (Llefaru); Siân Harries (Celf); Pat Jones ac Anita Long (Gwalith Llaw a Choginio) a Wena Williams (Rhyddiaith).

Croesawyd un o frodorion y pentref yn ôl fel llywydd, ac roedd y plant wrth eu bodda yn gwrando ar atgofion Sharon Wooley o'r amser pan oedd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal yng Nghapel Glasgoed, Penisarwaun, ers llawer dydd.

Mwynhaodd y plant hynaf y cwis, oedd dan ofal Geraint George, ac roedd wyth tîm yn cystadlu am y wobwr gyntaf.

Roedd safon arbennig i'r cystadlu ar y llwyfan gydag enillydd y Rhuban Glas yn eu plith! Cafwyd hefyd anrhydeddu y llenor ifanc, sef Elin Owen, a'r llenor hŷn, sef Anna Gwenllian George. Mae dyled pwyllgor yr Eisteddfod eto eleni yn fawr i Marina Jones a Dewi Hughes am roi o'u hamser i hyfforddi'r plant ar gyfer y cystadlaethau canu, ac hefyd i Ann Ifans am hyfforddi'r parti adrodd. Cyfeilyddion yr Eisteddfod oedd Lois Eifion Jones a Dewi Hughes.

Canlyniadau

Blwyddyn Derbyn: Canu: 1. Aron. Adrodd: 1. Aron. Gwaith Llaw: 1. Enlli. Arlunio: 1. Izabel; 2. Carwyn; 3. Enlli ac Aron. Rhyddiaith: 1. Aron; 2. Izabel; 3. Carwyn.

Meithrin: Canu: 1. Morgan; 2. Elin. Adrodd: 1. Morgan ac Elin. Arlunio: 1. Mabli; 2. Joel; 3. Harri.

Blwyddyn 1 a 2: Rhyddiaith: 1. Elin; 2. Twm; 3. Catrin Elen. Arlunio: 1. Elin; 2. Cai a Llion; 3. Ioan a Ceri. Gwaith Llaw: 1. Moi. Canu: 1. Elin; 2. Twm; 3. Ioan a Moi. Adrodd: 1. Moi; 2. Elin; 3. Twm a Ioan. Parti Canu: 1. Parti Elin.

Blwyddyn 3 a 4: Adrodd: 1. Catrin; 2. Amy; 3. Catrin Sara. Canu: 1. Magi; 2. Catrin Alaw; 3. Amy. Rhyddiaith: 1. Catrin Alaw; 2. Magi; 3. Lois. Arlunio: 1. Lois; 2. Emily; 3. Magi. Gwaith Llaw: 1. Catrin Alaw; 2. Magi ac Anna; 3. Amy.

Blwyddyn 3, 4, 5 a 6: Coginio: 1. Siôn; 2. Nia; 3. Annia a Jordan. Parti Canu: 1. Parti Jordan.

Blwyddyn 5 a 6: Adrodd: 1. Nia; 2. Ceinwen; 3. Caitlin a William. Canu: 1. Nia; 2. Ceinwen ac Elin; 3. Cailin a William. Rhyddiaith: 1. Elin; 2. Nia; 3. Sioned. Arlunio: 1. Ceinwen; 2. Sioned a William; 3. Sophie a Dur. Gwaith Llaw: 1. Nia; 2. Siôn. Llun ar Gyfrifiadur: 1. Nia. Cynradd: Parti Adrodd: 1. Parti Anti Ann. Ffotograffiaeth: 1. Enlli; 2. Ioan; 3. Jordan. Unawd Piano: 1. Magi. Unawd Offerynnol: 1. William. Darllen o'r Beibl: 1. William a Magi; 2. Nia; 3. Caitlin a

Jordan. Deuawd: 1. Mared a Tania; 2. William a Drew; 3. Nia ac Elin.

Dan 18: Meimio i record: 1. Grŵp Anti Jean Antonia a Sophie. Blwyddyn 7,8 a 9: Canu: 1. Elli; 2. Lowri. Adrodd: 1. Glesni; 2. Sean. Rhyddiaith: 1. Catrin; 2. Katie. Gwaith Llaw: 1. Tomos; 2. Sean a Katie; 3. Catrin Heledd. Coginio: 1. Tomos; 2. Sean a Katie; 3. Catrin.

Blwyddyn 10-13: Canu: 1. Anest Bryn. Rhyddiaith: 1. Anna Gwenllian; 2. Anest Bryn. Barddoniaeth: 1. Rhian Elin. Gwaith Llaw: 1. Anna.

Uwchradd: Ffotograffiaeth: 1. Catrin; 2. Katie. Unawd Piano: 1. Anest Bryn; 2. Elli; 3. Catrin. Unawd Offerynnol: 1. Anest Bryn. Poster ar Gyfrifiadur: 1. Anna; 2. Catrin; 3. Katie. Cyflwyniad o'r Beibl: 1. Anna; 2. Sean.

Agored: Unrhyw ddawns unigol: 1. Anest Bryn. Ensemble Lleisiol: 1. John Eifion, Lois ac Anest. Parti Adrodd: 1. Phyllis Ellis. Band Cegin: 1. Anna Marie; Limrig: 1. Liz Jones. Brawddegau: 1. a 2. Anna Gwenllian.

Dros 18: Gwaith Llaw: 1. Phyllis Ellis. Grŵp Cân Ysgafn: 1. Parti Marina.

Buddugwyr yng nghystadlaethau y Cwis: 1. Anna ac Anest.



Anna Gwenllian: Prif Lenor Uwchradd

Tlws Llenor Iau: Elin Owen
Tlws Llenor Uwchradd: Anna Gwenllian.

YR YSGOL GYMUNED

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn nos Iau, 4 Rhagfyr, a gwnaed elw o £743. Diolch i bawb a gefnogodd y noson mewn unrhyw fodd ac yn arbennig i aelodau o bwyllgor Cyfeillion yr Ysgol am drefnu'r noson.

Dymunwn Nadolig Llawn iawn i chi i gyd a diolch i bawb am bob cefnogaeth gydol y flwyddyn. Bydd yr ysgol yn ailagor i'r plant dydd Mawrth, 6 Ionawr 2009.

CRONFA PENSIYNWYR

Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Tachwedd oedd Mrs E. Williams, 2 Bryn Tirion (rhif 33). Llongyfarchiadau! Diolch i bawb am bob cefnogaeth ac am y cyfraniadau tuag at y gronfa yn ystod y flwyddyn.

CYFARCHION YR WYL. Dymuna Mrs Nel Williams, 2 Bryn Tirion, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a chymdogion, oherwydd afiechyd ni fydd yn anfon cardiau nac anrhegion eto.

AMBIWLANS AWYR. Mawr ddiolch i bawb o ardal yr Eco am eu cefnogaeth i Rhys Roberts, Bryn Afon, Penygroes, pan oedd yn rhedeg y Great North Run. Casglwyd £784 tuag at yr Ambiwylans Awyr.

YSGOL SUL BOSRA. Fore Sul, 7 Rhagfyr, aeth 15 o blant ac oedolion ar drên bach Rheilffordd

Llyn Padarn i weld Siôn Corn yn ei groto Nadoligaidd. Diolchir i Siôn Corn am ei eiriau caredig i bob plentyn bach ac oedolyn. Derbyniodd y plant anrheg hyfryd ganddo a mwynhaodd yr oedolion bwnsh poeth a mins pei a bar o siocled. Bu'n fore llawn cynnwrf i'r plant ac roedd croeso y Corrach Cymreig a Rwdolff yn goron ar yr hwyl. Dymunir diolch i Fiona am drefnu'r cyfan gan roddi mwynhad mawr i bawb. Bydd parti bach i'r plant fore Sul, 21 Rhagfyr a bydd yr ysgol Sul yn ailgychwyn y Sul wedi i'r ysgol aildechrau.

LLONGYFARCHIADAU. Ein dymuniadau gorau i Dr Gwenllian Parry, Tawelfa gynt, ar ei dyrchafiad yn ei swydd fel Ymgynghorwr (Consultant) Seiciatrydd Clinigol yng Ngwynedd.

Llongyfarchiadau hefyd i Eurgain Haf gyda'i llyfr cyntaf o bedwar yng nghyfes Siencyn a Dan Draed. Cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol a moesol plant rhwng 7-11 yw gobaith hynt a helynt y crwydryn unigryw, Siencyn. Y neges yw fod pawb, dim ots pwy ydyn nhw, yn haeddu cael eu trin gyda pharch.

DIOLCH. Dymuna Gwenda, gofalwr yr ysgol Gymuned ddiolch i Bwyllgor yr Eisteddfod Bentref am y talebau. Diolch o galon.

GWELLHAD. Gobeithio y bydd pawb mewn iechyd da erbyn y Nadolig. O ddarllen gohebiaeth Bethel, gobeithio fod Myra Griffith, 6 Bryn Eglwys, wedi gwella wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr a'r enillwyr oedd: Nia Oliver, Gors; Nia Lewis, Penpwl Coch; Efa Tomos, Cricieth.

Ceir manylion am y Noson Wasael, nos Fercher, 17 Rhagfyr, yn y rhifyn nesaf. Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus ar Ionawr 19 am 7.00 o'r gloch.

PRIODASAU ARBENNIG. Llongyfarchiadau mawr i Irfon a Heddwen, Ty'r Ardd, Waen, ar eu Priodas Arian ar 26 Tachwedd. Llauer o gariad gan Elen ac Iwan a Carmen, y teulu a ffrindiau oll. Sws fawr i Nain a Taid gan Erin Fflur. Dymuna Irfon a Heddwen ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar yr achlysur hapus.

Pob dymuniad da hefyd i Avril a Geraint, Careb, 8 Bryn Eglwys, ar achlysur eu Priodas Ruddem ar 21 Rhagfyr. Cariad mawr i mam a dad oddi wrth Dylan, Sioned, Rhian a Ceirion a'r yng nghyfraith ynghyd â'r wyrion a'r wyresau. Mwynhewch y dathlu.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Mrs Blodwen Pritchard, Llys y Gwynt, Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau.

EGLWYS SANTES HELEN. Fore Sul, 21 Rhagfyr, am 11.00 bydd plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan.

Bore'r Nadolig am 9.00 y bore gweinyddir y Cymun Bendigaidd gan y Ficer, Lloyd Jones. Croeso cynes i bawb.

Dymunir Nadolig Llawn i bawb yn y pentref a'r fro.



Elin Owen: Prif Lenor Cynradd



Parti Canu Blwyddyn 3, 4, 5 a 6



Parti Canu Babanod 'Steddfod Penisarwaun



Parti Teulu Ni - 'Hei Dad!'



Aron - Iaf ar adrodd a chanu

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL CWM Y GLO.

Mae cyfnod Elen Davenport fel myfyriwr yn yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd y tymor. Mae Dosbarth Peris wedi gwir

fwynhau bod yn ei chwmmi dros yr wythnosau a bydd ganddynt hiraeth ar ei hol. Dymunwn yn dda iddi pan fydd yn dychwelyd i'r coleg y tymor nesaf.



Elen Davenport gyda phlant Dosbarth Meithrin.

Diolchwn i'n Cymdeithas Rien i ac Athrawon weithgar unwaith eto. Cynhaliwyd noson Bingo hwyliog y mis yma i godi arian ac maent wedi trosglwyddo arian ar gyfer prynu pum cyfrifiadur newydd. Diolch yn fawr gan y plant i gyd!

Daeth Zoo Lab i'r ysgol i gynnal gweithdai gyda'r dosbarthiadau i gyd. Roedd cyfle i gyffwrdd mewn gwahanol fathau o anifeiliaid a dysgu am eu cynefinoedd.



Daeth PC Neil Williams i'r ysgol i gynnal gweithdai gyda'r disgybl i gyd. Diolchwn yn fawr iddo.

Diolchwn i Ysgol Brynrefail hefyd am y croeso a gafodd wyth disgybl o Flwyddyn 6 y mis yma tra ar ddiwrnod o ymweliad. Roedd pawb wedi mwynhau ac yn awyddus i gael mynd eto. Mae gennym gyfnod prysur o hyn tan ddiwedd tymor. Rydym yn edrych ymlaen i weld sioe bypedau gan Saint y Gymuned. Mae gennym ddau berfformiad o'r cyngerdd Nadolig - 'Y Blwch', a pharti cyn i'r ysgol gau, gan obeithio na fydd Siôn Corn yn rhy brysur i alw i mewn.

Dymunwn Nadolig Llawen i bob un o ffrindiau Ysgol Cwm y

Glo sydd wedi bod yn dda gyda ni yn ystod y flwyddyn hon.

LLONGYFARCHIADAU i Liam, 2 Dôl Afon, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

YN YR YSBYTY; Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Peggy Rowlands, 3 Maes Gerddi, sydd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau i Heddwen ac Irfon Hughes, London Garage, ar ddathlu eu Priodas Arian.

DIOLCH. Dymuna Heddwen ac Irfon ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar ddathlu eu Priodas Arian.

DIOLCH. Dymunwn ddiolch yn ddiffuant i'r ffyddloniaid sydd wedi gofalu am newyddion i'r Eco drwy'r flwyddyn. Diolch yn fawr.

CYFARCHION Y NADOLIG. Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd gwasanaeth o naw llith a charol yn yr ysgol gymuned Nos Lun, 8 Rhagfyr. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Robert Townsend a'r organydd oedd Dr. W. Munroe. Darllenwyd y llithoedd gan yr aelodau. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd mins pei a phaned a thrafodwyd materion perthnasol gan arweinydd y gangen, Mrs. Dorothy Jones. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Miss Meira Williams, Mrs Kathleen Jones a Mrs Marjorie Roberts. Enillwyd y raffls gan Mr Stan Owen, Mrs Joyce Ranson, Mr Peter Taylor a Dr W. Munro.

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

DYMUNA Rhian Jones, Dulas, 4 High Street, ddiolch i bawb am y cardiau, y blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 60 oed yn ddiweddar. CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Olau, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu a ffrindiau oll ym mro Eco'r Wyddfa.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Braf oedd gweld nifer o'r aelodau wedi dod i wrando ar Miss Anna Jane Evans o Cymorth Cristnogol. Croesawyd hi gan y Llywydd, Y Parch John Pritchard. Roedd yn agoriad llygad inni i gyd i weld y gwaith da roedd Cymorth Cristnogol yn ei wneud trwy'r byd. Diolchwyd iddi gan Mr John Ll. Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 26 Ionawr pryd y cawn sgwrs gan Mr Keith Jones, Clwt y Bont ar yr Amgylchedd.

CYDYMDEIMLWN ag Edwina, Dic a'r teulu, a chyda Wendy, Mario a'r teulu yn dilyn colli mam a nain arbennig yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion cynhesaf at yr holl deulu.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Cai Ap Ieuan o Clwt-y-Bont ar lwyddo i gael ei felt du yn karate yn Rhyl ar y 6ed o Ragfyr. Diolch mawr i Sensei Sara a'r holl griw yn Llanrug.



GWASANAETH NADOLIG. Cynhelir gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Unedig Deiniolen fore Sul, 21 Rhagfyr am 10.00 y bore. Croeso cynnes i bawb.

CYFARCHION Y NADOLIG. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r cylch ac anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

FFAIR NADOLIG YSGOL GWAUN GYNFI. Cafwyd pnawn o fwrlwm yn Ffair Nadolig yr Ysgol Gynradd ddydd Iau, 4 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch. Roedd stondin gacennau, teganau a llyfrau, fideos, stondin grefftau Nadolig y plant, a chyfle i harddu eich hun trwy beintio'ch wyneb neu'ch ewinedd. Hefyd roedd danteithion i fodloni'r dant melysaf yn y stondin fflownten siocled lle'r oedd marshmallows a

ffrwythau a iogwrt ar gael hefyd, ac i fodloni'r awch bwyd mwyaf gyda chwn poeth a phaned a theisen. Cafwyd cyfle hefyd i roi tro ar y twba lwcus a'r tombola ac i ddyfalu enw'r ci tegan a faint o farblis oedd yn y jar, dan ofal rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol. Roedd y ciw yn hir i weld Siôn Corn yn y groto hefyd.

Un o uchafbwyntiau'r prynhawn oedd tynnu'r Raffl fawr, lle'r oedd rhoddion niferus gan y staff yr ysgol, rhieni, cyfeillion a chwmnïau lleol ar gael. Rhai o'r enillwyr oedd: 1. Basged fwyd: Kathleen Evns; 2. Taleb Arvoniam am £20: Eirian Jones; 3. Bocs o winoedd: Margaret Elen; 4. Taleb £20 i gaffi Caban, Brynrefail: Mrs Carolyn Jones; 5. Cinio cyw iâr (y cig yn rhodd gan Siop Wavell, Llanrug): Osian Trefor Hughes; Tocyn £10 i Gaffi'r Fflownten (Amgueddfa Lechi Llanberis): Marina Marzelos Jones; CD Piantel (rhodd gan Annette Bryn Parri): teulu 20 Hafod Olau; CD Emyr Gibson (rhodd gan Emyr): John Jones, Ceris; CD Bryn Fôn wedi'i llofnodi: Mrs Richardson, athrawes yn yr ysgol; Tocyn Trin gwallt yn Headmasters, Bangor (rhodd gan Vicky, Deiniolen): John Jones, Ceris, gyda Deilwen Williams a theulu 5 hafod Olau, Deiniolen yn ennill tuniau o fisgedi o Morrisons a Londis, Llanrug. Cafwyd rhoddion at yr achos gan Garej Beran a chwmni bysiau Ieuan Williams hefyd. Dymuna'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon ddiolch o galon am bob cefnogaeth i'r ffair a sicrhodd elw teilwng i goffrau'r ysgol.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI

Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Festri Capel Ebeneser dydd Sadwrn, 25 Hydref. Yn beirniadu Cerdd oedd T.J. Williams; Llefaru a Llên: Y Prifardd Selwyn Griffith; Celf a Chrefft; Pat Jones a Gwilym Williams. Roedd yr Eisteddfod eleni yn dathlu ei chwarter canrif ac, er y tywydd stormus, cafwyd eisteddfod lwyddiannus a hwyliog dros ben.

Enillwyd y Gadair gan Medi Vaughan Wilkinson, Caernarfon, a'r Fedal Lenyddol dan 25 oed gan Siwan Davies, Llanwenog, Ceredigion.

Canlyniadau Llwyfan

Ysgol a Dosbarth Meithrin: Adrodd: 1. Osian; 2. Emma; 3. Hanna. Canu: 1. Hannah; 2. Beca; 3. Osian.

Dosbarth Derbyn: Adrodd: 1. Gwion; 2. Leon. Canu: 1. Leon; 2. Gwion.

Bl. 1 a 2: Adrodd: 1. Alaw; 2. Beca; 3. Alice. Canu: 1. Alaw; 2. Cian; 3. Dylan.

Bl 3 a 4: Adrodd: 1. Llio; 2. Rhun;



Plant Ysgol Feithrin Deiniolen ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen wedi gwisgo'u pyjamas i godi arian.

3. Rhys. Canu: 1. Rhys. Unawd Pres dan 10 oed: 1. Deian; 2. Ffion.

Bl. 5 a 6: Adrodd: 1. Sian; 2. Rhys; Canu: 1. Rhys; 2. Sian.

Dan 12 oed: Unawd Cerdd Dant: 1. Rhys; 2. Anest. Alaw Werin: 1. Anest; 2. Rhys; 3. Sian. Parti Adrodd: Genethod Deiniolen. Unawd Offerynnol: 1. Steffan; 2. Damien. Camu Emyr: 1. Rhys; 2. Sian; 3. Alaw. Unawd Piano: 1. Rhys.

Parti Canu Bl.2 ac iau: Lleisiau Bach Llanbabs. Parti Canu Bl 3-6: Lleisiau Mawr Llanbabs.

Ymgais orau yr Adran Adrodd dan 12: Sian. Ymgais orau yr Adran Gerdd dan 12: Rhys Meilir.

Unawd Offerynnol dan 16: 1. Manon.

Dan 21: Unawd Cerdd Dant: 1. James; Unawd Alaw Werin: 1. Gwenllian; Unawd Piano: 1. Gweno; 2. Sion; 3. Manon.

16-21: Adrodd: 1. Gwenllian; Unawd: 1. Gwenllian.

Unawd Offerynnol Agored: 1. Sion. Cân allan o sioe gerdd: 1. James Mai; 2. Gwenllian.

Darlenn Darn ar y pryd: 1. Jeni Lyn; 2. Sion Liam. Deuawd Agored: 1. Eleri a Lyndsey. Unawd Alaw Werin Agored: 1. Robat John; 2. Gwenllian. Her Unawd: 1. Lyndsey; 2. Gwenllian.

Cyfansoddi Emyr Dôn: Gwilym Lewis, Caergybi.

Cwpan am ymdrech orau yr Adran Gerdd dan 21 oed: Gweno Glyn.

Adran Lenyddol

Ysgol a Dosbarth Meithrin: 1. Hannah; 2. Angharad; 3. Iestyn.

Bl. Derbyn: 1. Megan Owen; 2. Sophie Roberts; 3. Tira Pritchard.

Bl.1: 1. Alis Jones; 2. Jacob Barton; 3. Jack Prytherch.

Bl.2: 1. Angharad Jones; 2. Beca Jones; 3. Glain Hughes

Bl.3: 1. Cloe; 2. Lee; 3. Bethan.

Bl.4: 1. Monique; 2. Connor; 3. Lianne.

Bl.5: 1. Harryl; 2. Ffion; 3. Chloe.

Bl.6: 1. Catrin Llywelyn; 2. Catrin Medi; 3. Stacey Williams.

Tlws am ymdrech orau yn yr Adran Lenyddol dan 12: Catrin Llywelyn.

Stori Fer: Richard Llwyd Jones, Bethel. Englyn: Richard Llwyd Jones; Telyneg: Medi Vaughan Wilkinson; Limrig: Dewi ap Rhobert, Talwrn, Ynys Môn; Llinell goll: Ann Wyn Owen, Rhoscolyn, Ynys Môn; Cyfansoddi emyn i sefydlu achos crefyddol newydd: Gareth V. Davies, Hen Golwyn; Ysgrif: T. Williams, Abergwaun.

Creu Brawddeg: Ann Wyn Owen, Rhoscolyn.

Celf a Chrefft

Arlunio

Ysgol Feithrin/Dosbarth Derbyn: (bore): 1. Emma; 2. Hannah; 3. Scarlett. (pnawn): 1. Eli; 2. Sinead; 3. Dafydd. Bl. Derbyn: 1. Ruby; 2. Megan; 3. Kira. Bl 1: 1. Alis; 2. Rhys; 3. Nia. Bl. 2: 1. Brandon; 2. Angharad; 3. Corbyn. Bl. 3 a 4: 1. Gruffydd; 2. Jake; 3. Shane. Bl. 4 a 5: 1. Leanne; 2. Harri; 3. Ynyr. Bl. 6: 1. Cai Owen; 2. Tomos Glyn; 3. Rhydian.

Tlws am yr ymdrech orau i blant Bl. 5 a 6 mewn Arlunio: Cai Owen.

Gwaith Llaw

Bl Derbyn ac 1 a 2: 1. Becca Jones ac Elin Worth; 2. Alis Jones, Dian Parry ac Elli Haf; 3. Ela Jones a Cian Fleming. Bl. 3 a 4: 1. Sion Alyn. Bl. 5 a 6: 1. Catrin Llywelyn Griffith; 2. Osian Worth; 3. Harri Jones. Bl. 7-13: Steffan Warner.

Ymgais orau yn yr Adran Celf a Chrefft o 12-21: Elli Hughes.

Gwau: Bl. 3-6: 1. Catrin Medi Jones; 2. Ffion Warner a Carrina Collines; 3. Leanne Marie Williams. Agored: 1. Brenda Williams; 2. Katie Wyn 3. Diane

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Davies.

Crosio: 1. Margaret Bushell; 2. Mari Gryffydd; 3. Brenda Williams.

Gwnio: *Bl Derbyn ac 1 a 2:* 1. Becca Jones; 2. Elin Worth; 3. Victoria Williams ac Alis Jones. *Bl. 3-6:* 1. Alaw Lewis; 2. Lois Regan a Katie Spragg; 3. Gareth Jones.

Pwyth Croes: 1. Mona Parry; 2. Valmai Williams.

Cwpan am y cynnyrch gorau yn yr Adran Gwau a Gwnio: Mona Parry.

Coginio Bl Derbyn ac 1 a 2: 1. Ellis Haf Owen; 2. Gwion Griffith; 3. Deian Parry. *Bl. 3-6:* 1. Catrin Llywelyn Griffith; 2. Ffion Warner ac Osian Worth; 3. Prys Wyn Hughes. *Uwchradd:* 1. Elli Geraint Hughes; 2. Steffan Warner.

Torth Wen neu Frown: 1. Gwen Gruffydd. *Teisen Spwng Fictoria:* 1. Valmai Williams; 2. Mona Parry; 3. Eirlys Hughes a Liz Owen. *Dynion yn unig - Pasta:* 1. Tony Fleming; 2. Gwilym Jones.

Gwaith Coed: Prys Wyn Hughes ac ennill yr ymgais orau yn yr Adran.

Ffotograffiaeth: *Ysgol Gwaun Gynfi:* 1. Elli Haf Owen; 2. Alis Jones; 3. Becca Jones. *Agored:* 1. Margaret Williams; 2. Valmai

Williams; 3. Margaret Williams.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod.

Cynhaliwyd Pwyllgor Cyffredinol yr Eisteddfod nos Iau, 13 Tachwedd, yn Ffestri Capel Ebeneser. Daeth cynifer dda iawn i'r cyfarfod a da o beth oedd gweld mamau ieuanc yn dangos diddordeb yn nyfodol y Steddfod.

Cafwyd adroddiad calonogol gan y Trysorydd, Gwen Griffith. Llauer o ddiolch i Gronfa Pantyfedwen, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, Cronfa'r Degwm, yr Hysbysebwyrr a chyfeillion yr Eisteddfod am eu haelioni.

SWYDDOGION

Llywydd: Hilda Parry; *Trysorydd:* Gwen Griffith; *Ysgrifennydd Cerdd:* Nia Morris; *Ysgrifennydd Llên a Llefaru:* Eirlys Hughes; *Ysgrifennydd Celf a Chrefft:* Ffion Jones; *Ysgrifennydd Cyffredinol:* Lindsey Vaughan Fleming a Sioned Evans; *Cyfrifol am gasglu hysbysebion:* Elena Williams.

Bwriedir cynnal Eisteddfod 2009 ym mis Tachwedd, y dyddiad i'w benodi.

Mae angen mwy o help ar y pwyllgor. Cysylltwch gydag unrhyw un o'r swyddogion os oes gennych ddiddordeb.

UN FUNUD FACH

CLOSIO

Diwrnod braf yn Llanberis, a'r haul yn tywynnu; diwrnod ysgol, mae'n amlwg, â'r iard yn llawn o geir; lori fawr yn dadlwytho nwyddau yn siop Spar; a'r Farchnad Ffrengig ger y Ganolfan. Dwi ddim yn siw'r os oeddwn i gartref: doedd yna ddim car o flaen y ty, beth bynnag.

Fûm i rioed mewn roced. Ond rwyf newydd weld llun o Lanberis a dynnwyd o'r gofod pell. Rhyfeddodau lloeren a chyfrifiadur a'm galluogodd i edrych i lawr tua'r ddaear, a chwyddo'r llun er mwyn gweld Ewrop, a Chymru, ac Eryri, a Llanberis. O chwyddo'r llun ymhellach, gwelwn strydoedd a thai unigol. Mewn difrif! Closio at ein ty ni o bellteroedd y gofod, nes sylwi hyd yn oed fod gwair yr ardd gefn wedi ei dorri!

Ac ar Wyl y Nadolig cawn ninnau glosio a hoelio'n sylw ar un man arbennig. Bron na welwn ni'r gwair yn y fan honno hefyd, wrth glosio'n agosach a gweld babi bach yn gorwedd ym mhreseb yr anifeiliaid. O bellter byd, a thros ofod y canrifoedd, mae'r miliynau'n closio eto eleni at yr Iesu a ddaeth yn Geidwad. Arno fo y mae ein llygaid ni a llygaid pobl o bob rhan o'r byd y Nadolig hwn.

Fe glosiwn at breseb

Bethlehem am fod Duw ei hun wedi gwneud hynny'r Nadolig cyntaf hwnnw. Roedd holl sylw Duw'r bydysawd mawr ar un dref fechan. Roedd holl fwriadau Duw ar gyfer y byd a'r ddynoliaeth wedi eu crynhoi mewn un digwyddiad. Roedd holl rym cariad Duw wedi ei wasgu i'r un baban a aned yno'r diwrnod hwnnw. Bethlehem oedd canol y byd. Roedd y proffwydi wedi pwyntio at y dref. Ond dyma'r awr yn dod i Dduw ei hun glosio at y lle, a chlosio mor agos nes iddo ddod ei hun yn y baban bach. Mae llygaid y byd ar y preseb o'r newydd eleni, ac nid yw hynny'n syndod o gofio mai Duw ei hun oedd yn gorwedd ynddo!

Yng nghanol trafferthion a chaledi ein byd, diolch am bopeth prydferth a glân a welwn y Nadolig hwn: o hwyl plant bach a chariad teulu i gwmni ffrindiau a haelioni dieithriaid. A boed i Dduw ein galluogi hefyd i syllu ar faban bychan Bethlehem ac i glosio ato, yn nes ac yn nes, fel y gwelwn ninnau mai'r plentyn bach hwn yw'r Duw a ddaeth yn Oleuni ac yn Obaith i ni.

Nadolig Llawn iawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

JOHN PRITCHARD

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA I'N HOLL DDARLLENWYR!**


Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

WELDPAR
CYMRU WALES
**CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR (01286) 650720**



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda

Dylunio / Design
Cyfryngau / Media
Arddangosfeydd / Exhibitions
Safweoedd / Websites



cread

gwasanaeth dylunio / cyfryngau
design / media service

t - 01248 713437
m - 07867 976183
e - post@creadcyf.co.uk
w - www.creadcyf.co.uk

1161 5an



Y BWTHYN TÊ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



**Nadolig Llawn
i bawb**

PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION
LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF. CEWCH GROESO
ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFYDD
GWYCH DROS LLYN PADARN A
DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

Hughes / Tony Pulis; 14. Derek
Milan; 12. Caerdydd; 13. Mark
Yr Ariannin; 11. Rhufain, Turin,
7. Cannus; 8. Ryan Giggs; 9. 37; 10.
Stadion Swalec; 6. Iwan Rhys Iwan; 5.
Craig Bellamy; Gareth Bale; 5.
3. SV Hamburg; 4. Jason Koumas;
1. Eifion Roberts (Sale); 2. Birds Nest;
Quinnell; 15. Tendulkar; 16.
Wresam; 17. Yr Amman; 18. Roger
Federer; 19. Reslo; 20. Australia; 21.
Celtic Crusaders; 22. Owein Tudur
Jones; 23. Nic Parry; 24. Pel-droed
Americanaidd; 25. Ceri Wyn Jones;
26. Terry Darracott; 27. Juventus; 28.
Essex; 29. Joe Ledley, Aaron Ramsey;
30. West Brom.

CHWARAEON

GWEFR YR HYDREF

Dyna'r unig air i ddisgrifio cyfres gemau rygbi rhyngwladol yr Hydref. Ennill dwy, colli dwy yw'r record swyddogol ond, yn ddiarheul, enillodd y Crysau Coch y parch a'r hawl i ymuno a phrif wledydd y gamp. Dylsid fod wedi trechu De Affrica, ac ymestyn yr oruchafiaeth dros Awstralia o fwy na thri pwynt. Efallai fod y gêm ddi-fflach yn erbyn Canada yn dangos nad yw y dyfnder o dalent ddigon trwchus ar hyn o bryd. Cafwyd ymdrech daer yn erbyn y Crysau Duon am 40 munud, ond cofir y 'safiad' urddasol yng ngwyneb yr Haka am flynyddoedd maith.

Edrychwn ymlaen yn awr at Bencampwriaeth y Chwe Gwlad ac ennill y Grand Slam am yr eildro yn olynol – camp na chyflawnodd sêr y 70a'u.

Cyn hynny bydd y rhanbarthau – yng nghanol yr holl gecru – wedi dychwelyd i'r frwydr o gipio Cwpan Heineken Ewrop. Gyda geiriau Warren Gatland bod rhaid 'ennill eu lle' yn y garfan genedlaethol yn sbardun, efallai gwelwn y Gweilch yn cyflawni eu potensial, yn enwedig gyda Phillips a Henson yn ôl wedi anaf, ac mae Byrne yn wefreiddiol ar hyn o bryd.

Mae Caerdydd hefyd yn chwarae rygbi da, agored a chystadleuol. A all stadiwm newydd danio'r Sgarlets? Bychan yw'r arwydd ar hyn o bryd. Mae'r Dreigiau – gyda llawer llai o nawdd – yn

brwydro'n galed, ond heb y chwaraewyr disglair. Heb amheuaeth daw y cyfle gorau i lwyddo o efelychu strategaeth Gatland a mynd yn ôl at y gêm gyflym gynhenid Gymreig.

Digon i edrych ymlaen iddo wedi'r Wyl, ond cofiwch y gêm fawr draw ym Methesda ar y Sadwrn cyn y Nadolig, pan fydd yr Howgets yn croesawu Caerdydd ym mhedwaredd rownd Cwpan Swalec. Dyna beth fydd achlysur!

SUT MAE DAL I FYNY?

Bob hyn a hyn atgyfodir y gri am gael chwarae pêl-droed yn yr haf. Buasai rhai yn dadlau fod hyn yn digwydd yn barod gyda gemau cynghrair yn gor-redeg dyddiad swyddogol diweddu'r tymor. Elfen arall yw'r tywydd, a chyflwr anobeithiol rhai o'r meysydd.

Digwydd sylwi wnes i ar dabl cyfredol Cynghrair y Welsh Alliance sy'n cynnwys Llanrug a Llanberis. Diwedd Tachwedd, tri mis i mewn i'r tymor, ac mae Llanberis wedi chwarae 7 gêm gynghrair a Llanrug 11 gêm. Ar y brig mae Rhyl wedi chwarae 16 gêm. Oes mae llofoleuadau ar y Belle Vue, ond pam y fath wahaniaeth yn y nifer o gemau. Gormod o ohiriadau, gemau cwpan neu 'free week'? Sut mae adennill 9 gêm. Y ffaith yw y bydd rhai timau yn chwarae dwy neu dair gwaith yr wythnos ar ddiwedd y tymor. Chwaraewyr ddim ar gael, anafiadau, etc.

I mi nid yw hyn yn ddull teg o gynnal cynghrair.

CWIS NADOLIG YR ECO

Atebion ar waelod tudalen 21

1. Pwy yw'r gogleddwr olaf i ennill cap llawn i dim rygbi Cymru, ac o ba glwb?
2. Beth oedd y llysenw ar y brif stadiwm Olympaidd yn Beijing?
3. I ba glwb ar gyfandir Ewrop y chwaraeodd Kevin Keegan?
4. Pa dri chwaraewr o Gymru fethodd giciau o'r smotyn yn rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd yn ddiweddar?
5. Beth yw enw swyddogol cartref tim criced Morgannwg?
6. Pwy oedd y tim diwethaf o Wynedd i gyfarfod â Llanelli yng Nghwpan Pêl-droed F.A. Cymru?
7. Beth yw llysenw tim rygbi Canada?
8. Pwy alwyd yn 'Welsh prat' gan y sylwebydd Alan Green ar y radio'n ddiweddar?
9. Am sawl gornest bocio proffesiynol y bu Joe Calzaghe yn fuddugol?
10. Mae Cymru yn bumed yn rhestr detholion Cwpan Rygbi'r Byd 2011. Pwy sy'n bedwerydd?
11. Ym mha dair dinas yn yr Eidal mae timau Seria A yn rhannu stadiwm?
12. Pwy oedd gwrthwynebwyr cyntaf Llanelli ar Barc y Sgarlets?
13. Pwy yw'r ddau Gymro sy'n rheoli timau yn y 'Premier League'?
14. Pwy yw'r unig chwaraewr rygbi o Gymru sydd wedi curo y Teirw Duon bedair gwaith?
15. Pa gricedwr sydd wedi sgorio y nifer fwyaf o rediadau mewn gemau prawf?
16. Pa un yw'r maes hynaf sydd yn dal â'r hawl i gynnal gemau rhyngwladol?
17. Gyda pha glwb rygbi ail-ddosbarth y dechreuodd Shane Williams ei yrfa?
18. Pa chwaraewr tennis sydd wedi ennill pencampwriaeth senglau y dynion y nifer mwyaf o weithiau yn Wimbledon?
19. Ym mha gamp y mae Barri Griffiths yn ceisio llwyddo?
20. Ym mha wlad y ganwyd y dyfarnwr ar gyfer rownd derfynol Cwpan Rygbi Gynghrair y Byd eleni?
21. Pa dim o Gymru fydd yn ymuno â'r Super League tymor nesaf?
22. Pwy o fyd y campau yw nai yr awdur Geraint Vaughan Jones?
23. Bu Ray Gravell ac Orig Williams yn cyflwyno *Reslo* ar S4C. Pwy oedd yn sylwebu?
24. Cymerodd Terry Price ran mewn pedair camp – Rygbi (Undeb a Chynghrair), criced a?
25. Pa brifardd chwaraeodd rygbi dros dim ieuenctid Cymru?
26. Pa gyn-chwaraewr Everton yw is-reolwr Wrecsam?
27. Pa dim yw'r 'Hen Wreigan' ymysg Seria A yr Eidal?
28. O ba sir yr ail-ymunodd Darren Gough a Swydd Efrog?
29. Pwy oedd y ddau Gymro olaf i chwarae yn rownd derfynol Cwpan F.A. Lloegr?
30. Pa un yw'r maes pel-droed uchaf uwch lefel y môr yn y Premier League?

PENCAMPWYR NISA? CIT NEWYDD LLEWOD LLANRUG



Rheolwyr a chwaraewyr dan 16eg Llewod Llanrug yn derbyn cit newydd oddi wrth eu noddwyr, Pally Shoker (perchennog) a Robert Lovelock (rheolwr) Yr Ystorfa, Nisa, Llanrug. Llawer o ddiolch iddynt am eu cefnogaeth hael i'r hogia ifanc lleol.